

Strategaeth Twristiaeth Gynaliadwy 2017-2022

a

Chynllun Gweithredu Cyrchfan 2017-2020

Bannau Brycheiniog



**BRECON
BEACONS**
OUR NATIONAL PARK



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Cynnwys

Rhagair gan Fwrdd y Bartneriaeth Cyrchfan Gynaliadwy	3
1. Crynodeb Gweithredol	4
2. Cyflwyno'r Cefndir	14
2.1. Yr Hinsawdd Bresennol	14
2.2. Y Cyd-destun Strategol	14
2.3. Canlyniadau Ymgynghoriadau, gan gynnwys Crynodeb o Arolygon	24
2.4. Cyflawniadau	26
2.5. Trefniadau a Phartneriaethau Gweithio	28
3. Y Sefyllfa Bresennol.....	35
3.1. Ffactorau Galw a Safle Cystadleuol	35
3.2. Ffactorau cyflenwi	38
3.3. Dadansoddiad Dimensiynol ar gyfer Cyrchfan Bannau Brycheiniog	40
4. Yr hyn yr ydym am ei gyflawni.....	45
4.1. Uchelgais	45
4.2. Datganiad o Weledigaeth	45
4.3. Datblygu'r Gyrchfan.....	51
4.4. Partneriaethau a chysylltedd.....	52
5. Sut y byddwn yn cyflawni ei nod	56
5.1 Cynllun Gweithredu 2017-2020.....	56

Rhagair gan Fwrdd y Bartneriaeth Cyrchfan Gynaliadwy

Mae yna ddwy ffordd o ddiffinio Bannau Brycheiniog fel cyrchfan ...

Y ffordd gyntaf yw trwy ei phriodoleddau - y llinellau yr ydym yn eu gweld ar fapiau sy'n rhoi siâp i ardal y Parc Cenedlaethol ei hun, yn ogystal â'r rhestr drawiadol o dopograffeg, daeareg, treftadaeth adeiledig a naturiol, aneddiadau, asedau twristiaeth, sefydliadau a llwybrau mynediad sy'n rhan ohoni.

Yr ail ffordd, a'r un fwyaf cymhellol, yw trwy ei heffeithiau - ardal ysbrydoledig Bannau Brycheiniog, heb ffiniau ffisegol, sydd wedi'i diffinio'n llawer mwy gan y croeso cynnes y mae'n ei roi, y profiadau arbennig y mae'n eu cynnig, yr ymdeimlad unigryw o le y mae'n ei greu, a'r ffordd benodol y mae'n gwneud i ni deimlo, boed yn breswylwyr, yn ymwelwyr neu'n fusnesau - dyma ein cyrchfan *ni*.

Fel man cychwyn da, mae'r gyrchfan wedi buddsoddi amser, meddwl ac arian sylweddol i ddatblygu ei brand. 'Nawr yw'r amser i ledaenu'r brand hwnnw ac i wireddu'r addewidion y mae'n eu gwneud.

Rydym yn falch o'r ffordd y mae'r bartneriaeth rhwng busnesau, cymunedau a'r llywodraeth isoes yn rheoli'r gyrchfan, a hynny er budd pawb. Mae'r strategaeth newydd hon, a'r cynllun gweithredu, ar gyfer pawb sy'n ymwneud â thwristiaeth ym Mannau Brycheiniog. Rydym yn gobeithio y bydd yn ysbrydoli ac yn cefnogi busnesau a sefydliadau wrth iddynt ddatblygu eu cynlluniau eu hunain.

I ni, mae'n rhaid i gynaliadwyedd fod wrth wraidd popeth, yn hytrach nag yn atodiad iddo. Mae angen i'n twristiaeth arddangos yn glir werth amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd.

Andrew Fryer Cadeirydd Twristiaeth Bannau Brycheiniog

Elizabeth Jeffreys Cadeirydd Grŵp Cydgysylltu Marchnata Bannau Brycheiniog

Gerwyn Evans Pennaeth Datblygu Twristiaeth Croeso Cymru

John Cook Prif Weithredwr Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Richard Tyler Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy APCBB

Sue Bolter Pennaeth Adfywio Cyngor Sir Powys

1. Crynodeb Gweithredol

Mae'r strategaeth hon yn ymdrin â'r cyfnod hyd at 2022, ac mae'r Cynllun Gweithredu Cyrchfan yn ymdrin â'r cyfnod hyd at 2020.

Cyd-destun Strategol a Gweithredu

Nid trwy gyd-ddigwyddiad y mae ein tirweddau gwarchoddedig, yn enwedig y Parciau Cenedlaethol a'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, hefyd yn frandiau cyrchfan o ddewis i gynifer o ymwelwyr â Chymru - mae apêl uniongyrchol Penrhyn Gŵyr, Eryri, Sir Benfro, Dyffryn Gwy ac Ynys Môn, yn ogystal â Bannau Brycheiniog, a'r gydnabyddiaeth ohonynt, wedi rhagori'n hanesyddol ar apêl y wlad yn gyffredinol. Mae ymrwymiad Bannau Brycheiniog i ddull cynaliadwy o ddatblygu twristiaeth a marchnata wedi cael ei gydnabod trwy gyflawni Siarter Ewropeaidd Europarc ar gyfer Twristiaeth Gynaliadwy. Bydd y strategaeth hon yn rhan o'r dystiolaeth a gyflwynir i adnewyddu'r dynodiad hwnnw maes o law.

Mae'r strategaeth yn cydnabod, yn adlewyrchu, a, lle bo'n berthnasol, yn cefnogi'r broses o gyflawni'r polisiâu allweddol canlynol:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015
<http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?skip=1&lang=cy>
- Partneriaeth ar gyfer Twf
<http://gov.wales/docs/drah/publications/161116-strategy-review-cy.pdf>
- Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 2015-2025
<http://www.bannaubrycheiniog.org/yr-awdurdod/amdanom-ni/cynllun-rheoli2019r-parc-cenedlaethol/>
- Cynllun Rheoli Ymwelwyr Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 2015
<http://www.bannaubrycheiniog.org/cymunedau/busnes-twristiaeth/cynllun-rheoli-ymwelwyr/>
- Cynllun Geoparc Fforest Fawr <http://www.geoparcyfforestfawr.org.uk/>

- Cynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon
<http://www.visitblaenavon.co.uk/cy/WorldHeritageSite/LookingAfterBlaenavon/Documents.aspx>
- Cynlluniau Cyrchfan awdurdodau cyfagos a chyfansoddol

Ynghyd â chanlyniadau Arolwg Ymwelwyr Bannau Brycheiniog, mae'r ymgynghoriadau canlynol wedi llywio'r astudiaeth hon:

- Ymgynghoriadau un-i-un â nifer o randdeiliaid allweddol yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus
- Gweithdy fel rhan o gyfarfod aelodau Twristiaeth Bannau Brycheiniog (TBB)
- Tri chyfarfod o Fwrdd y Bartneriaeth Cyrchfan Gynaliadwy
- Gweithdy gyda staff ac aelodau APCBB
- Cyflwyniad a thrafodaeth â Thîm Rheolwyr Cefn Gwlad APCBB
- Cyflwyniad a thrafodaeth â Fforwm y Bartneriaeth Cyrchfan Gynaliadwy
- Arolwg ar-lein, yr ymatebodd 100 o randdeiliaid y diwydiant iddo

Heriau

Roedd safbwyntiau cryf yr ymgynghoreion wedi amlygu nifer o heriau penodol allweddol ar gyfer cyrchfan Bannau Brycheiniog:

- Graddau ac ansawdd y Ddarpariaeth i Deuluoedd, yn enwedig dewisiadau amgen dan do
- Ehangu'r apêl y tu hwnt i weithgareddau antur, yn arbennig diwylliant, treftadaeth, bwyd a diod, digwyddiadau, trefi marchnad a phentrefi
- Mynd i'r afael â natur dymhorol twristiaeth - adegau o'r flwyddyn, yn ogystal â diwrnodau'r wythnos
- Mewn byd sy'n symud ymhellach i ffwrdd oddi wrth Ganolfannau Croeso, sicrhau effeithiolrwydd system Gwybodaeth i Ymwelwyr fwy gwasgaredig, gan ddefnyddio allfeydd lluosog a rhwydwaith y Llysgenhadon
- Perthynas agosach â'r sector manwerthu, ac annog oriau agor ac arlwy sy'n gyfeillgar i ymwelwyr

- Nid yw'r Cludiant Cyhoeddus sydd ar gael o reidrwydd yn addas i gefnogi twristiaeth trwy ei rwydwaith llwybrau, amserlenni neu systemau tocynnau
- Gwefan ar y cyd y gyrchfan yw'r prif ddull cyfathrebu rhwng y gyrchfan a'r ymwelydd, ond mae'n parhau i dangyflawni

Gall y pryderon penodol hyn gael eu cwmpasu gan un her gyffredinol -

'Cydgysylltu'r' gyrchfan a'r ffordd y mae'n gweithio:

- Taith gyffredinol y cwsmer,
- 'Pecynnu meddal' o ran mynediad, pethau i'w gwneud, lletygarwch, cludiant a llety,
- Buddsoddi ym mrand Bannau Brycheiniog a
- Symleiddio'r bartneriaeth gyflenwi

Cyflawniadau o ran Datblygu'r Gyrchfan ers cyfnod y strategaeth flaenorol (2011-2016)

- Cryfhau Partneriaeth Cyrchfan Gynaliadwy Bannau Brycheiniog
- Sefydlu Cynghreiriau Gwledig (cyfanswm o 12)
- Meithrin gallu ac atgyfnerthu Twristiaeth Bannau Brycheiniog (TBB)
- Cynllun y Llysgenhadon (150+)
- Diwrnodau Gwella Busnes
- Dynodiad Cyrchfan Dwristiaeth Wyrddaf y DU
- Gweithgarwch marchnata, gan gynnwys gwefan ar y cyd y diwydiant/APCBB
- Statws Awyr Dywyll
- Brandio defnyddwyr newydd

Ffactorau Cyflenwi

Llety

Yn ôl ffigurau swyddogol mae'r stoc llety ym Mannau Brycheiniog wedi colli tua 0.6% o'i chapasiti dros y pum mlynedd diwethaf, gydag ychydig yn llai na 10 mil o welyau gwag wedi'u cofnodi yn 2016. Mae dyfodiad gwefan Airbnb yn awgrymu bod llawer mwy o letyau yn gweithredu'n 'answyddogol'. Byddai canlyniadau'r arolwg o'r

diwydiant hefyd yn awgrymu trosiant o weithredwyr o ystyried y niferoedd sydd wedi bod yn gweithredu ers pum mlynedd neu lai.

Atyniadau

Er bod yna nifer o weithrediadau masnachol annibynnol, mae llawer o 'frandiau' lluosog mawr Cymru i'w gweld yn y gyrchfan a'r cylch: Amgueddfa Cymru (Y Pwll Mawr yw atyniad mwyaf poblogaidd y Parc Cenedlaethol), Cadw, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Glandŵr Cymru ac, wrth gwrs, APCBB ei hun.

Gweithgareddau

Y cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau ffurfiol ac anffurfiol fu'r prif ysgogiad dros ymweld â Bannau Brycheiniog ers tro byd. Mae gan Grŵp Darparwyr Gweithgareddau Awyr Agored De Cymru tua 230 o aelodau yng Nghymru a thu hwnt, ond mae'r mwyafrif helaeth ohonynt yn darparu gweithgareddau antur rheolaidd mewn gwahanol leoliadau ym Mannau Brycheiniog. Mae 60% o'r aelodau wedi llofnodi'r Siarter Amgylcheddol. Mae'n ddiddorol bod Grŵp Darparwyr Gweithgareddau Awyr Agored De Cymru wedi dod i fodolaeth, gyda chefnogaeth Twristiaeth Bannau Brycheiniog (TBB), o ganlyniad i bryderon am gynaliadwyedd ac effaith mewn atyniadau poblogaidd allweddol.

Perfformiad Twristiaeth

Mae canlyniadau'r STEAM diweddar ar gyfer y gyrchfan yn galonogol ...

Categori	2014	2015	% y Newid
Ymwelwyr Dros Nos	0.296 miliwn	0.331 miliwn	+ 11.5%
Ymwelwyr Dydd	3.718 miliwn	3.815 miliwn	+ 2.6%
Effaith Economaid (£m)	221.56	238.93	+ 7.8%
Cyfanswm Cyflogaeth	3546	3823	+7.8%

Yr hyn yr ydym am ei gyflawni erbyn 2022 - Ein Datganiad o Weledigaeth

Ymhlith tirweddau gwarchoddedig Prydain mae Bannau Brycheiniog yn parhau i gryfhau ei statws fel gyrchfan gynaliadwy flaenllaw trwy'r ffordd y mae'n datblygu ac yn marchnata ei ddarpariaeth i dwristiaid. Mae'n dda gweld y sectorau preifat a gwirfoddol yn chwarae rhan fwyfwy amlwg a gweithgar yn y bartneriaeth sy'n rheoli'r gyrchfan, yn ogystal â'r asedau sy'n rhan ohoni. Rhywbeth hyd yn oed yn fwy calonogol yw'r enw da y mae'r gyrchfan bellach wedi'i ennill iddi'i hun am ei chroeso unigryw i ymwelwyr ac am wella lles preswylwyr, gan fod yn 'gymydog da' i gyrchfannau cyfagos a'r ardaloedd awdurdod lleol niferus y mae'n rhannu ei hôl-troed â nhw. Bellach, mae yna werthfawrogiad llawn o'r manteision a'r gwerth ychwanegol y mae'r profiad o Fannau Brycheiniog yn eu cynnig.

Mae yna wir ddealltwriaeth o'r hyn sy'n gwneud ac yn cadw ein tirwedd yn arbennig, wedi'i rhannu gan y rheiny sy'n ei reoli a'r rheiny sy'n hyrwyddo mynediad iddo. Mae gweithgareddau awyr agored ac antur yn parhau i fod yn elfen allweddol o'r ddarpariaeth i ymwelwyr, ond maent bellach yn denu pobl o ystod ehangach o oedrannau, dyheadau, cefndiroedd a galluoedd. Bellach mae'r gweithgareddau hyn yn cael eu hategu gan stori fwy cyfoethog: dathliad hyderus o etifeddiaeth ddiwylliannol fyw yr ardal - y celfyddydau a threftadaeth, pobl a phersonoliaethau, cymunedau ac iaith, trefi marchnad a phentrefi, bwyd a chynnyrch - etifeddiaeth sy'n dod yn fyw trwy rwydwaith hunangynhaliol o lysgenhadon twristiaeth.

Mae mwy o'n hymwelwyr yn aros dros nos, yn ymweld ganol wythnos ac yn ystod y misoedd tawelach, ac yn darganfod rhannau eraill o'r gyrchfan ar wahân i'r atyniadau poblogaidd. Maent yn cael eu denu gan y statws Awyr Dywyll, Geoparc a Safle Treftadaeth y Byd, amrywiaeth gystadleuol o brofiadau ar gyfer 'y pedwar tymor', sydd wedi'u hyrwyddo'n dda, ynghyd â chalendr dibynadwy o wyliau a digwyddiadau, y mae'r cyfan oll yn ychwanegu at yr ymdeimlad unigryw o le.

Yn unol â llifau ymwelwyr a manau cychwyn, mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi'i adnabod yn rhan allweddol o ddarpariaeth Dinas-Ranbarthau

Caerdydd ac Abertawe, a hefyd yn ffocws ar gyfer economi'r Canolbarth, gan fanteisio ar well cludiant a chysylltedd ffonau symudol a band eang er budd y diwydiant ac ymwelwyr, fel ei gilydd.

I grynhoi, hoffem grisialu'r weledigaeth hon mewn cyfres o bedwar dyhead clir ar gyfer Twristiaeth ym Mannau Brycheiniog:

- ✓ **Enghraifft falch o gyrchfan gynaliadwy sy'n cael ei chefnogi gan ei chymunedau**
- ✓ **'Cymydog da' sy'n ychwanegu gwerth sylweddol at y ddarpariaeth a'r economi ranbarthol**
- ✓ **Sectorau preifat a gwirfoddol bywiog sy'n cymryd yr awenau o ran croesawu ymwelwyr a'r ddarpariaeth i dwristiaid**
- ✓ **Mwy o resymau dros ymweld yn amlach â'r Parc Cenedlaethol trwy gydol y flwyddyn**

Nodau a Blaenoriaethau Strategol

Wrth geisio cyflawni targed cyffredinol Cymru ar gyfer twf, y bwriad strategol yw darparu twristiaeth **gwerth uwch** - economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol - i Fannau Brycheiniog; gwell cysylltedd, neu, mewn iaith syml, bod yn fwy 'cydgysylltiedig', yw'r allwedd i gyflawni'r gwerth hwnnw - yr 'edau euraid' sy'n rhedeg trwy'r cynllun hwn ...

O ran y ffordd yr ydym yn cyflwyno'r Gyrchfan:

- Ymwybyddiaeth eang o frand a gwerthoedd brand Bannau Brycheiniog, a'u mabwysiadu a'u hybu'n eang ymhlith sefydliadau a chynhyrchwyr ar gyfer ymwelwyr
- Dull 'di-dor' o reoli 'taith yr ymwelydd' cyn, yn ystod, ac ar ôl ymweliad, yn enwedig trwy sianeli ar-lein
- Datblygu 'pecynnu meddal' trwy wybodaeth a chyfathrebu cyson sy'n cysylltu opsiynau cludiant a llety ag atyniadau, gweithgareddau, digwyddiadau, y sector bwyd a diod a'r sector manwerthu, er mwyn

sicrhau profiad ehangach a dyfnach o'r Bannau i ymwelwyr (a manteisio'n llawn ar weithgarwch datblygu brand cenedlaethol a rhanbarthol)

O ran y ffordd yr ydym yn cydweithio:

- Dull integredig o reoli'r gyrchfan yn gyffredinol, gydag eglurder o ran cyfrifoldebau arwain, atebolrwydd a llinellau adrodd
- Cydweithio cryfach rhwng y Bannau a'u 'cymdogion' yn seiliedig i ddechrau ar brosiectau amser cyfyngedig sydd o fantais glir i bawb
- Ffocws clir ar economi ymwelwyr traws-adrannol yng ngweithgareddau cyflenwi, swyddogaethau, a pholisïau statudol ac anstatudol cyrff llywodraethol perthnasol, yn enwedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

O ran y ffordd yr ydym yn gofalu am ein hymwelwyr

- Cyfatebiaeth rhwng amcanion y gyrchfan a'r llafur a'r sgiliau penodol sy'n ofynnol i'w bodloni
- Partneriaeth gryfach, ond symlach, rhwng rhanddeiliaid twristiaeth i gyflawni brand ac addewid ansawdd y gyrchfan, boed hynny yn y sector cyhoeddus, preifat neu'r trydydd sector, ac ar lefel genedlaethol, ranbarthol neu leol
- Cyd-ddealltwriaeth drylwyr o broffil, ymddygiad, agweddau ac anghenion ymwelwyr, er mwyn llywio buddsoddiad yn y profiadau a gynigiwn

Amcanion Strategol a Meysydd ar gyfer Gweithredu

Gallwn droi'r nodau hyn yn amcanion cyfatebol ar gyfer pum mlynedd y strategaeth, gyda'r mesurau llwyddiant canlynol:

Amcanion	Mesurau Llwyddiant
Cyflwyno Bannau Brycheiniog	Datblygu'r Farchnad a Meithrin Enw Da
Cynyddu nifer y busnesau a'r sefydliadau ar gyfer ymwelwyr sy'n mabwysiadu brand Bannau Brycheiniog wrth eu gwaith	<ul style="list-style-type: none"> • Ansawdd a maint y cynnwys 'brand' a gynhyrchir • Cynyddu ymwybyddiaeth o'r diwydiant trwy ganllawiau/astudiaethau achos/gwobrau/protocolau • Nifer y Cynhyrchwyr sy'n ymgymryd â

	<p>mentrau cyd-frandio</p> <ul style="list-style-type: none"> Nifer y 'cytundebau' cyd-frandio â chyrchfannau cyfagos
Gwella'r broses o reoli 'taith yr ymwelydd'	<ul style="list-style-type: none"> Gwelliannau o ran rheoli cronfeydd data (ar lefel busnesau a chyrchfannau) Sefydlu protocolau o ran y Cyfryngau Cymdeithasol Perfformiad cymharol y wefan Gwell enw da trwy adborth, cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr, a systemau adolygu Cynnydd o ran gweithredu'r Cynllun Rheoli Ymwelwyr
Sicrhau gwerth ychwanegol gan bob ymwelydd trwy gynnig 'pecynnu meddal' o brofiadau ehangach a dyfnach	<ul style="list-style-type: none"> Nifer y cymhellion/mentrau i annog ymwelwyr dydd i aros dros nos, ynghyd â nifer yr ymwelwyr sy'n manteisio arnynt Gwelliannau o ran y ddarpariaeth i deuluoedd/gyda'r nos Datblygu rhwydwaith/rhwydweithiau gwybodaeth rhagweithiol Nifer o atebion arloesol o ran cludiant Sefydlu 'tymhorau' a digwyddiadau ar gyfer yr hydref/y gaeaf Nifer yr ymwelwyr sy'n cyfeirio at werth ychwanegol agweddau diwylliannol o ran eu hymweliad â Bannau Brycheiniog.
Cydweithio	Partneriaethau
Gwella effeithiolrwydd prosesau Rheoli Cyrchfan	<ul style="list-style-type: none"> Eglurder ymhlith rhanddeiliaid ynghylch rôl rheolwr cyrchfan Strwythur Cynllun Rheoli Cyrchfan Diwygiedig, gyda rolau ac atebolrwydd

	<p>cliriach</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dad-ddyblygu a dyrannu rolau cyflenwi penodol yn fwy eglur e.e. hyfforddi, marchnata
Gwella'r berthynas weithio ag ardaloedd awdurdodau lleol sy'n rhanddeiliaid	<ul style="list-style-type: none"> • O leiaf un prosiect ymarferol bob blwyddyn mewn partneriaeth â chyrchfannau cyfagos/sy'n gorgyffwrdd (datblygu cynnyrch neu farchnata) • Strwythur ymgysylltu diwygiedig ac a werthfawrogir ag Awdurdodau Lleol/Dinas-Ranbarthau cyfagos
Gwella ffocws cyrff statudol ac anstatudol sy'n rhanddeiliaid ar economi ymwelwyr Bannau Brycheiniog	<ul style="list-style-type: none"> • Nodi sefydliadau allweddol a chynllun ymgysylltu • Dosbarthu gwybodaeth am niferoedd, gwerth ac effeithiau TBB i rhanddeiliaid ehangach • Cyfraniad adnabyddadwy Twristiaeth at waith cynllunio gwasanaethau a pholisi ehangach • Ffocws ar Dwristiaeth ar gyfer Cynlluniau Lleoedd • Mecanweithiau Cymorth Busnes sy'n cydnabod twristiaeth yn llawn
Gofalu am ein hymwelwyr	Croeso Bannau Brycheiniog
Darparu croeso â sgiliau uwch	<ul style="list-style-type: none"> • Nodi anghenion hyfforddi a datblygu • Darparwyr hyfforddiant yn diwallu'r anghenion hynny • Digwyddiadau rhwydweithio a dysgu rheolaidd a chynhwysol ar gyfer y Diwydiant • Rhwydwaith hunandibynnol o lysgenhadon
Darparu profiad o ansawdd uwch	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnal a gwella'r amgylchedd cyhoeddus a'r

<p>yn unol ag addewid brand Bannau Brycheiniog (a Chymru)</p>	<p>seilwaith</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhagor o brotocolau/gytundebau â rhanddeiliaid i reoli 'mannau cyfyng' • Capasiti wedi'i uwchraddio/capasiti newydd yn unol â galw hirdymor gan gwsmeriaid
<p>Deall ein hymwelwyr a'n prif farchnadoedd yn well, er mwyn darparu'r sail dystiolaeth ar gyfer gweithredu a gwerthuso</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Ymchwil i ymwelwyr • Ymchwil i rhanddeiliaid • Tueddiadau a gwaith ymchwil i'r dyfodol • Dadansoddi enw da

2. Cyflwyno'r Cefndir

2.1. Yr Hinsawdd Bresennol:

Mae'r strategaeth hon yn ymdrin â'r cyfnod hyd at 2022, ac mae'r Cynllun Gweithredu Cyrchfan cysylltiedig yn ymdrin â'r cyfnod hyd at 2020.

Mae'n adeiladu ar strategaethau twristiaeth tymor canolig blaenorol ar gyfer y gyrchfan, yr oedd yr olaf ohonynt yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 2011 a 2016. Roedd y darn hwnnw o waith yn cynnwys dadansoddiad cynhwysfawr o'r gyrchfan a'r cyd-destun strategol ehangach, ac mae llawer ohono'n berthnasol iawn o hyd, ac i'w weld yma: <http://www.beacons-npa.gov.uk/wp-content/uploads/twristiaeth-strategaeth-2011.pdf>.

Felly, trwy gydsyniad cyffredin ledled y gyrchfan, mae angen cynnal adolygiad 'ysgafn' o'r gwaith blaenorol hwnnw wrth ddiweddarau gwybodaeth am gyd-destun a pherfformiad, lle bo'r rhain wedi newid yn sylweddol.

2.2. Y Cyd-destun Strategol

Nid trwy gyd-ddigwyddiad yn unig y mae ein tirweddau gwarchoddedig, yn enwedig y Parciau Cenedlaethol a'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, hefyd yn frandiau cyrchfan o ddewis i gynifer o ymwelwyr â Chymru - mae apêl uniongyrchol Penrhyn Gŵyr, Eryri, Sir Benfro, Dyffryn Gwy ac Ynys Môn, yn ogystal â Bannau Brycheiniog, a'r gydnabyddiaeth ohonynt, wedi rhagori'n hanesyddol ar apêl y wlad yn gyffredinol. Mae ymrwymiad Bannau Brycheiniog i ddull cynaliadwy o ddatblygu twristiaeth a marchnata wedi'i gydnabod gan Siarter Ewropeaidd Europarc ar gyfer Twristiaeth Gynaliadwy. Bydd y strategaeth hon yn rhan o'r dystiolaeth a gyflwynir i adnewyddu'r dynodiad hwnnw maes o law.

Cenedlaethau'r Dyfodol

Gosodir y cyd-destun cenedlaethol ar gyfer twristiaeth gynaliadwy ym Mannau Brycheiniog gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 Llywodraeth Cymru <http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?skip=1&lang=cy>

Cymru ffyniannus

Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cydnabod terfynau'r amgylchedd byd-eang ac felly'n defnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn gymesur (gan gynnwys gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd cyflogaeth, gan alluogi pobl i fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir trwy sicrhau gwaith boddhaol.

Cymru gref

Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella **amgylchedd naturiol bioamrywiol sydd ag ecosystemau gweithredol iach** sy'n cefnogi gwytnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol, a'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).

Cymru iachach

Cymdeithas lle mae **llesiant corfforol a meddyliol** pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.

Cymru fwy cyfartal

Cymdeithas sy'n galluogi **pobl i gyflawni eu potensial** ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).

Cymru â chymunedau cydlynol

Cymunedau deniadol, hyfyw, a diogel sydd â chysylltiadau da.

Cymru â diwylliant ffyniannus ac iaith Gymraeg lewyrchus

Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau ac mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang

Cenedl sydd, wrth wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a all hynny **gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.**

Partneriaeth ar gyfer Twf 2013-2020

Mae'r strategaeth dwristiaeth genedlaethol, a arweinir gan Croeso Cymru ac a ddiweddarwyd yn 2016, <http://gov.wales/docs/drah/publications/161116-strategy-review-cy.pdf>, yn nodi'r camau â blaenoriaeth canlynol, a fydd yn cryfhau sefyllfa gystadleuol Cymru ac yn manteisio ar gyfleoedd newydd ar gyfer twf. Mae'r strategaeth yn ceisio sicrhau gwerth 10%, mewn termau real, o gynnydd mewn incwm twristiaeth erbyn 2020. Mae'r amcanion sy'n arbennig o berthnasol i Fannau Brycheiniog wedi'u hamlygu **mewn teip trwm isod:**

Hyrwyddo'r Brand

- Datblygu proffil Cymru; cyflwyno'r gyfres o Flynyddoedd Marchnata Thematig, gyda'r **Flwyddyn Antur yn 2016**, y **Flwyddyn Chwedlau yn 2017**, **Blwyddyn y Môr yn 2018** a'r **Flwyddyn Ddarganfod yn 2019**, wedi'u hategu gan ddigwyddiadau a phrofiadau cynnyrch newydd.
- Datblygu'r dull gweithredu a arweinir gan gynnyrch; hyrwyddo mathau perthnasol o wyliau, cynhyrchion eiconig a **brandiau cyrchfan a phrofiadau unigryw** i ddiwallu anghenion y farchnad.
- **Denu marchnadoedd twf uchel**; parhau i roi blaenoriaeth i'r farchnad gwyliau domestig, gan dargedu ein marchnadoedd rhyngwladol â blaenoriaeth, sef Iwerddon, yr Almaen ac UDA, a chanolbwyntio ar gyfleoedd tactegol ac a arweinir gan bartneriaid mewn marchnadoedd rhyngwladol ehangach.
- Addasu gweithgarwch marchnata; sicrhau cydbwysedd priodol o weithgareddau marchnata ym mhob marchnad darged, yn ogystal â rhyngddynt, a hynny'n seiliedig ar botensial y farchnad i dyfu, yr adnoddau sydd ar gael, a'r **cyfleoedd i gydweithio â phartneriaid.**
- Targedu marchnadoedd llewyrchus newydd; sicrhau adnoddau ychwanegol i dargedu'r farchnad Digwyddiadau Busnes, gan gefnogi Cruise Cymru a'r gwaith o

farchnata golff, gyda'r nod o ymgysylltu'n fwy â'r sector preifat ar ôl Pencampwriaeth Agored y Golffwyr Hŷn yn 2017.

- **Dod yn wlad Digidol yn Gyntaf**; datblygu porth digidol integredig ar gyfer Cymru, gan wella www.visitwales.com a gwefannau rhyngwladol Croeso Cymru, datblygu'r ecosystem cynnwys i Gymru a thyfu cymunedau cyfryngau cymdeithasol.
- Llywio gwariant a phroffidioldeb; bydd Croeso Cymru yn parhau i ganolbwyntio ar gynyddu'r galw a'r diddordeb cyffredinol mewn ymweld â Chymru trwy ddefnyddio sianeli digidol a masnach i droi diddordeb yn gyfleoedd posibl ar gyfer y diwydiant.

Datblygu Cynnyrch a Digwyddiadau Mawr

- Atyniadau blaenllaw; yn enwedig y rheiny sy'n darparu profiadau arbennig ac unigryw, **profiadau a all ddenu galw newydd ac ymweliadau ym mhob tywydd, gydol y flwyddyn.**
- Llety o ansawdd; gwestai brand o ansawdd uchel iawn a gwaith diweddar i lety o ansawdd sy'n bodloni gofynion newidiol y farchnad.
- Busnes a Digwyddiadau; cynnyrch i ddarparu ar gyfer marchnadoedd Busnes a Digwyddiadau, gan fanteisio ar Ganolfan Gofensiwn Ryngwladol arfaethedig Cymru.
- Mordeithiau; datblygu seilwaith mordeithio modern mewn porthladdoedd allweddol.
- Datblygu **profiadau Treftadaeth a Diwylliannol**; buddsoddi ym mhrofiad yr ymwelydd a'r ddarpariaeth llety ar safleoedd treftadaeth nodedig.
- Bwyd a Diod; cryfhau enw da cynyddol Cymru fel **cyrchfan fwyd**, gan gynnwys mynd ar drywydd blaenoriaethau sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Gweithredu Twristiaeth Bwyd.
- Defnyddio technoleg ddatblygol; sicrhau bod y diwydiant yn defnyddio technoleg newydd i greu profiadau cyffrous a thrawsnewidiol i ymwelwyr.
- Denu digwyddiadau proffil uchel newydd a datblygu digwyddiadau presennol; denu ymweliadau gan bobl sy'n gwario llawer o'r tu allan i Gymru.
- Cefnogi'r Blynyddoedd Thematig gyda digwyddiadau angor.
- Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd brandio mewn digwyddiadau.

Datblygu Pobl

- Parhau i **ddylanwadu ar gynlluniau hyfforddi a phrentisiaethau** er mwyn diwallu anghenion newidiol y diwydiant a chwsmeriaid.
- Annog busnesau i ddefnyddio Gwasanaeth Cymorth Busnes Ar-lein Porth Sgiliau Llywodraeth Cymru.
- Cefnogi cyrchfannau i gyflawni **statws Cyrchfan WorldHost**.
- Cyflwyno Gwobrau Twristiaeth Cenedlaethol ar gyfer rhagoriaeth mewn gwasanaeth cwsmeriaid yn 2017/18.
- Ymchwilio i'r posibilrwydd o ddatblygu elfen gwasanaeth cwsmeriaid yn rhan o gymhwyster Bagloriaeth Cymru.
- Symud y prosiect Teithiau Dysgu yn ei flaen er mwyn datblygu arfer gorau ledled y diwydiant.
- Cefnogi mentrau sy'n anelu at newid canfyddiadau o yrfaeoddedd ym maes twristiaeth.
- Cynyddu'r ddarpariaeth o dywyswyr a llysgenhadon lleol sy'n meddu ar sgiliau iaith addas.
- Gweithio gyda'r diwydiant i ystyried cyfleoedd ar gyfer ysgol lletygarwch newydd yng Nghymru.

Adeiladu Lleoedd a Phartneriaethau

- **Ailganolbwyntio cymorth ar gyfer y Partneriaethau Cyrchfannau** er mwyn bwrw ymlaen â champau gweithredu allweddol yn unol â'u cynlluniau a'u blaenoriaethau strategol ehangach.
- Nodi cyrchfannau sydd â safle cryf yn y farchnad i'w hyrwyddo fel brandiau cyrchfan is-genedlaethol arweiniol.
- Adolygu rôl Cymdeithasau Twristiaeth a'r cymorth ar eu cyfer.
- Cyflawni'r buddsoddiadau mewn seilwaith twristiaeth strategol a ariennir gan yr UE yn yr 11 cyrchfan penodedig ledled Cymru.
- Cryfhau'r cysylltiadau rhwng y Fforymau Rhanbarthol, y Partneriaethau Rheoli Cyrchfan, cymdeithasau twristiaeth lleol a Chyrff yn y Diwydiant sy'n Cynrychioli'r Sector.

- Sicrhau bod twristiaeth yn cael blaenoriaeth yng nghynlluniau'r Cyrff Economaidd Rhanbarthol.
- Hyrwyddo'r cymorth ar-lein newydd ar gyfer y diwydiant a datblygu dull cynaliadwy ac ymdeimlad unigryw o le.
- **Darparu gwell tystiolaeth i benderfynwyr allweddol** ar lefel leol er mwyn sicrhau bod cyllidebau'n cael eu diogelu i adlewyrchu effeithiau'r economi ymwelwyr.
- Sicrhau bod **anghenion twristiaeth yn cael eu hystyried mewn datblygiadau perthnasol o ran y seilwaith cludiant**, gan gynnwys gwell cysylltedd trwy'r prif feysydd awyr a phorthladdoedd, gwelliannau i'r M4, trydaneiddio'r rheilffyrdd, a chytundebau masnachfrait.
- **Gweithio gyda gweithredwyr cludiant** a chludwyr i hyrwyddo llwybrau i ymwelwyr.

Mae Croeso Cymru wedi crisialu ei feini prawf ar gyfer cymorth prosiect yn y dyfodol yn bump 'prawf' Brand, sef:

- ✓ **Syfrdanu ac Ysbrydoli**
- ✓ **Newid Canfyddiadau**
- ✓ **Dyrchafu Ein Statws**
- ✓ **Gwneud Pethau Da**
- ✓ **Bod yn Ddigamsyniol Gymreig**

Ar lefel cyrchfan, dyma'r prif newidiadau i'r cyd-destun strategol:

Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol

Mae Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 2015-2025

<http://www.bannaubrycheiniog.org/yr-awdurdod/amdanom-ni/cynllun-rheoli2019r-parc-cenedlaethol/>, sef y ddogfen statudol arweiniol ar gyfer gwaith yr Awdurdod Parc

Cenedlaethol, yn nodi'r canlynol am dwristiaeth:

- Buddsoddi mewn gwaith datblygu cynnyrch sydd wedi'i gynllunio a'i gydgysylltu'n dda, ac sy'n seiliedig ar ymchwil dda, yn ogystal â diwylliant a chryfderau naturiol yr ardal.

- Parhau i wella dealltwriaeth o dueddiadau twristiaeth, ymddygiad y farchnad, yn ogystal â busnes twristiaeth yn y Parc Cenedlaethol a'r cylch.
- Diwygio strwythur sefydliadol twristiaeth er mwyn helpu i greu dull partneriaeth cryfach sy'n cynnwys yr holl randdeiliaid allweddol.
- Annog gweithgareddau marchnata cydweithredol ar sail brand Bannau Brycheiniog.
- Gwella profiad pobl, yn breswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd, o'r Parc Cenedlaethol.
- Rheoli effeithiau twristiaeth.
- Gwireddu potensial llawn twristiaeth Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu a gwarchod a gwella ei lleoliad deniadol.

Cynllun Rheoli Ymwelwyr APCBB

Mae Cynllun Rheoli Ymwelwyr Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 2015

<http://www.beacons-npa.gov.uk/wp-content/uploads/Cynllun-Rheoli-Ymwelwyr-Bannau-Brycheiniog-CYM.pdf> yn chwilio am ddull mwy rhagweithiol o reoli effeithiau ymwelwyr

yn y gyrchfan:

Thema Un: Ymyraethau sy'n seiliedig ar y Safle

Mae angen ymyraethau lleol i reoli effeithiau a phrofiadau ymwelwyr yn well mewn safleoedd penodol, gan wahaniaethu rhwng:

- Safleoedd poblogaidd sydd â'r gallu i ddarparu profiadau o ansawdd uchel i nifer mawr o ymwelwyr lle gellir rheoli effeithiau o fewn terfynau derbyniol; a
- Safleoedd a llwybrau sydd o dan bwysau amgylcheddol lle mae gweithgareddau ymwelwyr ar hyn o bryd yn cynhyrchu effeithiau annerbyniol, (yn aml ar y cyd ag achosion eraill), a lle mae angen ymyriadau rheoli i leihau neu liniaru'r effeithiau hyn.

.... mae yna gyfleoedd i weithio gyda busnesau a chymunedau mewn ardaloedd anghysbell i wella profiadau a chyfleusterau ymwelwyr mewn pentrefi, er enghraifft toiledau a manau i brynu bwyd a diod yn ystod y dydd.

Thema Dau: Cyfathrebu a Dylanwad

Mae angen ffocws ar farchnata a hyrwyddo gweithgareddau hamdden awyr agored i sicrhau bod negeseuon cyson yn cael eu defnyddio i ddarparu profiadau o ansawdd uchel i ymwelwyr, sy'n cefnogi'r gwaith o warchod y Parc Cenedlaethol. Bydd y **brand Bannau Brycheiniog** newydd yn rhan hanfodol o hyn. Dylid datblygu negeseuon dehongli allweddol ar gyfer pob un o'r lleoliadau mwyaf poblogaidd, ar sail eu nodweddion arbennig penodol a'u hanghenion cadwraeth.

Dylid ymgysylltu ymhellach â threfnwyr gweithgareddau pobl ifanc mewn ardaloedd mynyddig, a hynny trwy Grŵp Darparwyr Gweithgareddau Awyr Agored De Cymru . Yn fwy cyffredinol, mae yna gyfleoedd i hyrwyddo codau ymddygiad cenedlaethol, a'u gwneud yn berthnasol yn lleol, trwy **hyfforddi busnesau twristiaeth a darparwyr hamdden**, taflenni, dolenni ar dudalennau gwe ac arwyddion ar safleoedd allweddol. Mae yna gyfleoedd sylweddol hefyd i ymestyn, mewn modd mwy cydgysylltiedig, raglenni gwirfoddoli presennol. Dylai gwaith barhau i gynyddu cyfraniad ymwelwyr at yr economi leol, yn enwedig trwy well cynllun rhodd ymwelwyr.

Thema Tri: Trefniadau Sefydliadol

Ni fydd y rhan fwyaf o'r camau gweithredu ond yn cael eu cyflawni **ar sail aml-asiantaeth, sy'n gofyn am ffocws ar y modd y mae sefydliadau'n cydweithio** a'r modd y mae prosiectau'n cael eu cynllunio a'u darparu. Bydd angen arweinyddiaeth strategol i sicrhau bod y Cynllun hwn yn cael ei gyflawni mewn modd cydgysylltiedig. Mae angen penderfynu sut y bydd y rôl eirioli hon yn cael ei gweithredu yng nghydestun yr Adolygiad cyfredol o Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, gan gydnabod y dylai fod yn ymdrech ar y cyd rhwng buddiannau cymunedol, twristiaeth a chadwraeth.

Yn olaf, mae angen **gwell tystiolaeth am ymwelwyr a'u heffeithiau** i lywio prosesau rheoli mwy effeithiol. Bydd gwybodaeth well am darddiad a gweithgareddau ymwelwyr dydd, ac am nifer y bobl sy'n defnyddio'r llwybrau a'r safleoedd awyr agored mwyaf poblogaidd, yn darparu cyd-destun i lywio prosesau rheoli.

Cynllun Geoparc Fforest Fawr <http://www.geoparcyfforestfawr.org.uk/>

Y tu hwnt i ddynodiad ardal warchoddedig y Parc Cenedlaethol ei hun, mae dynodiad rhyngwladol y Geoparc wedi bod yn ffordd gadarnhaol o godi ymwybyddiaeth, meithrin balchder y gymuned, a chynyddu nifer yr ymweliadau â hanner orllewinol Bannau Brycheiniog. Dyma'r amcanion ar gyfer y Geoparc, y dyfarnwyd 'cerdyn gwyrdd' pellach iddo yn ddiweddar am ei brosesau rheoli a'i ganlyniadau:

Trwy weithio mewn partneriaeth effeithlon ac effeithiol ag ystod eang o randdeiliaid lleol a rhanbarthol, a thrwy ymgysylltu'n llawn â Rhwydwaith Geoparciau Ewropeaidd, yn ogystal â'r Rhwydwaith Geoparciau Byd-eang, bydd Geoparc y Fforest Fawr yn:

- Monitro effeithiau'r Geoparc er mwyn llywio camau gweithredu yn y dyfodol. Llywio'r gwaith o warchod geoamrywiaeth, bioamrywiaeth a threftadaeth ddiwylliannol ar raddfa'r dirwedd. Ennyn brwdfrydedd cymunedau lleol a'u busnesau i gydweithio mewn modd cynaliadwy ac i deimlo balchder yn y Geoparc.
- Hyrwyddo datblygiad economaidd cynaliadwy, yn enwedig **twristiaeth gynaliadwy**.
- Datblygu gwybodaeth a dehongliadau o ansawdd uchel sy'n cefnogi **profiad pleserus i ymwelwyr** ac sy'n cysylltu pobl â'r Geoparc.
- Bod yn ffocws ar gyfer ymchwil amgylcheddol/gwyddorau daear.
- Ymgymryd ag addysg amgylcheddol o ansawdd uchel ar gyfer pob oedran.
- Ceisio cynnwys pob sector o'r gymdeithas wrth ddatblygu ei waith
- Defnyddio ei dreftadaeth i annog ymwelwyr, busnesau a chymunedau i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

Cynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon

Saif rhan o Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon o fewn y Parc Cenedlaethol. Mae'r Cynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd

<http://www.visitblaenavon.co.uk/cy/WorldHeritageSite/LookingAfterBlaenavon/Documents.aspx> yn cael ei ddiweddararu ar hyn o bryd. Yr arwyddion cynnar yw bod perthynas dwristiaeth agosach a chydfuddiannol â Bannau Brycheiniog yn brif amcan:

Ailganolbwyntio'r neges ar weithgareddau awyr agored ac amgylchedd naturiol (marchnad gerdded fawr, yn ogystal â nifer o farchnadoedd gweithgareddau arbenigol) gyda gwerth ychwanegol treftadaeth ddiwydiannol.

- Manteisio ar frandiau Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Chamlas Sir Fynwy ac Aberhonddu (porth i'r Parc Cenedlaethol)
- Marchnata dan arweiniad digwyddiadau
- Marchnata cydweithredol gydag APCBB, y Cymoedd, ac ati. (y cyfryngau cymdeithasol, pecynnau)

Ailganolbwyntio'r cynnyrch

- Symleiddio a gwella llwybrau cerdded a beicio
- Creu canolfan gerdded (gwybodaeth am fynediad i weithgareddau, ffocws ar gyfer teithiau cerdded, mapiau/modelau, manwerthu, ac ati)
- Gwelliannau i ganol trefi (amgueddfeydd, teithiau tywys, Llysgenhadon, gwelliannau amgylcheddol, Menter Treftadaeth Treflun, ac ati)
- Gwell dehongliad o dreftadaeth naturiol a diwydiannol
- Gwelliannau i atyniadau unigol presennol (y Pwll Mawr, y gweithfeydd haearn, y rheilffordd treftadaeth, amgueddfeydd), a chydweithio gwell rhyngddynt
- Cymorth ar gyfer llety newydd

Cynlluniau Twristiaeth Awdurdodau Unedol

Mae gan bob ardal awdurdod unedol sy'n rhannu rhan o'i hôl-troed â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gynllun cyrchfan (ar wahân i Bowys, sy'n gwyrto i'r strategaeth hon mewn perthynas â rhan fawr o'r parc sydd o fewn ei ffiniau).

- Mae cynllun Sir Fynwy, sy'n destun adolygiad ar hyn o bryd, yn cydnabod yn llawn y cyfleoedd y mae'r cysylltiad â chyrchfan Bannau Brycheiniog yn eu cynnig.
- Mae Merthyr Tudful yn bwynt mynediad a gwasanaeth ar gyfer Bannau Brycheiniog

- Mae Blaenau Gwent yn ceisio manteisio ar farchnadoedd, heb fynd y tu hwnt i Fannau Brycheiniog
- Mae cynllun Tor-faen, a ddiweddarwyd yn ddiweddar, yn cyfeirio at y buddiant a rennir yn Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon a Chamlas Sir Fynwy ac Aberhonddu.
- Yn yr un modd, mae Castell-nedd Port Talbot yn cydnabod 'man cyfyng' ardal y Rhaeadrau o ran rheoli ymwelwyr.
- Mae Swydd Henffordd yn sôn ychydig am y Mynyddoedd Duon fel ardal fynyddig allweddol.
- Nid yw Sir Gaerfyrddin, Rhondda Cynon Taf na Chaerffili yn gwneud yr un cyfeiriad penodol at Fannau Brycheiniog, ac, yn lle hynny, mae eu cynlluniau'n edrych i'r gorllewin neu i'r de am bartneriaethau a llinellau cyflenwi.

Mae'r difaterwch strategol a sefydliadol cymharol hwn, sy'n seiliedig ar natur gynhwysol aelodaeth Twristiaeth Bannau Brycheiniog, yn wrthgyferbyniad llwyr i farn y diwydiant mewnol a Phartneriaeth Cyrchfan Gynaliadwy Bannau Brycheiniog am ardal o ddylanwad (ac aelodaeth) y Bannau, sy'n ymestyn 10 milltir i bob cyfeiriad o ffiniau swyddogol y Parc Cenedlaethol. Felly, byddem yn annog pawb sydd â budd mewn llwyddiant twristiaeth ym Mannau Brycheiniog i adlewyrchu'r rhannau perthnasol o'r strategaeth hon yn eu cynlluniau marchnata a datblygu eu hunain. Gellid dadlau y byddai gwneud fel arall yn anwybyddu premiwm cynnyrch sylweddol.

2.3. Canlyniadau Ymgynghoriadau, gan gynnwys Crynodeb o Arolygon

Mae'r ymgynghoriadau canlynol wedi llywio'r astudiaeth hon:

- Ymgynghoriadau un i un â nifer o randdeiliaid allweddol yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus
- Gweithdy fel rhan o gyfarfod o aelodau TBB
- Dau gyfarfod o'r Bwrdd Partneriaeth Cyrchfan Gynaliadwy
- Gweithdy gyda staff ac aelodau APCBB
- Cyflwyniad a thrafodaeth â Thîm Rheolwyr Cefn Gwlad APCBB
- Cyflwyniad a thrafodaeth â Fforwm y Bartneriaeth Cyrchfan Gynaliadwy
- Arolwg ar-lein, yr ymatebodd 100 o randdeiliaid y diwydiant iddo

- Canlyniadau Arolwg Ymwelwyr Bannau Brycheiniog 2016

Atodir crynodeb o'r arolwg fel Atodiad i'r Strategaeth hon

Heriau sy'n Codi

Ar sail safbwyntiau cryf yr ymgylgoreion, rydym wedi nodi nifer o heriau penodol allweddol ar gyfer cyrchfan Bannau Brycheiniog:

- Graddau ac ansawdd y Ddarpariaeth i Deuluoedd, yn enwedig dewisiadau amgen dan do
- Ehangu'r apêl y tu hwnt i weithgareddau antur, yn arbennig diwylliant, treftadaeth, bwyd a diod, digwyddiadau, trefi marchnad a phentrefi
- Mynd i'r afael â natur dymhorol y cyrchfan - nid yn unig adegau o'r flwyddyn, ond hefyd diwrnodau'r wythnos
- Mewn byd sy'n symud ymhellach i ffwrdd oddi wrth Ganolfannau Croeso, sicrhau effeithiolrwydd system Gwybodaeth i Ymwelwyr fwy gwasgaredig, gan ddefnyddio allfeydd lluosog a rhwydwaith y Llysgenhadon
- Perthynas agosach â'r sector manwerthu, ac annog oriau agor ac arlwy sy'n gyfeillgar i ymwelwyr
- Nid yw'r Cludiant Cyhoeddus sydd ar gael o reidrwydd yn addas i gefnogi twristiaeth trwy ei rwydwaith llwybrau, amserlenni neu systemau tocynnau
- Gwefan y gyrchfan yw'r prif ddull cyfathrebu rhwng y gyrchfan a'r ymwelydd, ond mae'n parhau i dangyflawni

Gall y pryderon penodol hyn gael eu cwmpasu gan un her gyffredinol -

'Cydgysylltu'r' gyrchfan a'r ffordd y mae'n gweithio:

- ❖ 'Taith' gyffredinol y cwsmer,
- ❖ 'Pecynnu meddal' o ran mynediad, pethau i'w gwneud, lletygarwch, cludiant a llety,
- ❖ Buddsoddi ym mrand Bannau Brycheiniog, a
- ❖ Symleiddio'r bartneriaeth gyflenwi

2.4. Cyflawniadau

Mae cynnydd o ran prosiectau yn gyffredinol wedi arwain at amrywiaeth o gyflawniadau sylweddol, o ddatblygu i farchnata.

Cryfhau Partneriaeth Cyrchfan Gynaliadwy Bannau Brycheiniog sy'n parhau i ehangu ar y cyfleoedd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, yn ogystal â datblygu a chydlynu rhaglenni gwaith ar y cyd.

Sefydlu Cynghreiriau Gwledig (Cyfanswm o 12) - busnesau a chymunedau sy'n cydweithio i ddarparu hwb economaidd ac i wrthbwysu newidiadau demograffig, gan gynnwys y Gelli, y Fenni, Crucywel, Talybont, Talgarth, Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu, yn Aberhonddu, (Mis y Celfyddydau llwyddiannus Aberhonddu), Crai, Cwm Tawe (Adelina Patti), Gŵyl Ddefaid Llanymddyfri, Croeso i Gerddwyr a Chwm-twrch.

Meithrin gallu ac atgyfnerthu Twristiaeth Bannau Brycheiniog (TBB), cymdeithas y mae nifer ei haelodau wedi cynyddu i dros 300 yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, ac sydd wedi aeddfedu i'r graddau ei bod bellach yn cael ei chydabod yn bartner cyflenwi hollbwysig yn y gyrchfan, ac yn gorff amhrisiadwy o ran cymorth a chyfathrebu ar gyfer y diwydiant twristiaeth lleol. Y newid sylweddol fu penodi swyddog gweithredol cyflogedig, sydd bellach yn cael ei gefnogi gan gymorth cyfathrebu. Yn 2016 cynhaliwyd y seremoni Gwobrau Twristiaeth gyntaf, gan ddenu nifer mawr o enwebiadau a phresenoldeb uchel ar y noson.

Mae **Cynllun y Llysgenhaddon** yn yr ardal bellach yn cynnwys dros 150 o bobl, ac mae mentrau fel **Diwrnodau Gwella Busnes** yn boblogaidd iawn. Unwaith eto, mae'r bartneriaeth weithio rhwng APCBB a TBB yn sicrhau bod cyfleoedd o'r fath yn cael eu cyfathrebu, ac y manteisir arnynt gan y sector ehangach

Yn 2013 dyfarnwyd statws **Cyrchfan Dwristiaeth Wyrddaf y DU** i'r ardal yn y Gynhadledd Twristiaeth Werdd gyntaf, a hynny yn gydnabyddiaeth am fabwysiadu a chyflwyno'r **Cynllun Achredu Twristiaeth Werdd** yn llwyddiannus.

Yn 2015, cymeradwywyd **Cynllun Rheoli Ymwelwyr**, sydd wedi helpu i lywio gwybodaeth, dealltwriaeth a rheolaeth ledled y Parc. Mae'n helpu i hyrwyddo twristiaeth gyfrifol, gydag ymweliadau (gan dwristiaid a thrigolion) sy'n mynd law yn llaw â pharch at warchod harddwch naturiol yr ardal ac anghenion cymunedau a busnesau lleol.

Mae **gweithgareddau marchnata**, yn unol â disgwyliadau ymwelwyr ac er mwyn manteisio ar gyfleoedd wrth iddynt godi, wedi parhau i ddatblygu a newid ffocws dros y blynyddoedd diwethaf. Mae gweithgareddau partneriaeth (cydweithredu yn y sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector) wedi bod yn fodd i ennill tir mewn marchnadoedd gwahanol, yn ogystal â chynyddu adnoddau trwy geisiadau llwyddiannus am gymorth ariannol (e.e. Croeso Cymru) er mwyn symud gweithgareddau ar y cyd yn eu blaen. Mae'r bartneriaeth weithio agos, yn ogystal â'r arbedion a gyflawnwyd o ran amser ac arian, wedi ategu Cysylltiadau Cyhoeddus a gweithgareddau hyrwyddo yn gyffredinol. Mae'r gwaith o greu gwefan y gyrchfan, sy'n cyfuno cynnwys cyfoethog gan APCBB a TBB, wedi bod yn gam sylweddol ymlaen; fodd bynnag, bydd tanberfformiad yn fuan yn tanseilio hyder yn y diwydiant.¹

Dyfarnwyd statws Awyr Dywyll i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ym mis Chwefror 2013, gan ei ddynodi'n swyddogol yn Bumed Warchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol y byd - y cyntaf yng Nghymru. Arweiniwyd yr ymgyrch gan Gymdeithas Parc Bannau Brycheiniog a'r Awdurdod Parc Cenedlaethol, ac mae wedi mynd yn ei blaen nid yn unig i greu cyfleoedd hyrwyddo i ddenu ymwelwyr, ond hefyd wedi effeithio ar hyfforddiant ar gyfer Llysgenhadon a'r ffordd y mae llawer o fusnesau'n marchnata eu darpariaeth, yn enwedig yn ystod y tymor twristiaeth.

Mae statws Awyr Dywyll yr ardal, ynghyd â nifer o'i nodweddion eraill (a'r gwaith llwyddiannus o ddatblygu a hyrwyddo'r nodweddion hynny), yn parhau i ennill **cydnabyddiaeth yn y wasg genedlaethol a rhyngwladol**, a hynny'n fwyaf diweddar yn y canllaw teithio uchel ei barch, "Lonely Planet", sy'n enwi'r Parc ymhlith y saith Parc

¹Mae rhagor o fanylion am y mater hwn wedi'u cyflwyno fel papur trafod ar wahân.

Cenedlaethol gorau yn Ewrop (ochr yn ochr â Norwy, Gwlad yr Iâ, Gwlad Groeg, yr Eidal, yr Alban a Sbaen), ac yn nodi:

'This dark sky reserve is home to the moody Black Mountains and magical Coed y Rhaeadr (Wood of the Water) where cascades include Sgwd yr Eira (the Snow Waterfall) on the River Hepste, with a path leading right behind the curtain of water'

Mae gwaith **datblygu cynnyrch** parhaus, er enghraifft lansio llwybr twristiaeth newydd yn y Bannau (sy'n rhedeg o Landeilo yn y gorllewin i'r Fenni yn y dwyrain) yn 2016, wedi helpu i sicrhau bod yna resymau ychwanegol (a marchnadoedd targed) yng nghyd-destun denu ymwelwyr.


Datblygwyd **brand newydd** ar gyfer gwaith a dulliau cyfathrebu sy'n gysylltiedig ag ymwelwyr, a chafodd hyn ei groesawu gan y sector. Mae themâu a gwerthoedd y brand wedi cael eu rhannu'n Gynulleidfaoedd (Ymwelwyr Cosmopolitan, Ymwelwyr Traddodiadol, Darganfyddwyr ac Ymwelwyr Ymarferol), ac maent bellach yn darparu sylfaen i gyflwyno brand cydlynol, defnyddiadwy a chyson ar gyfer ardal y Parc.

2.5. Trefniadau a Phartneriaethau Gweithio

Partneriaeth Cyrchfan Gynaliadwy Bannau Brycheiniog

Yn gwbl haeddiannol, mae parch mawr yng Nghymru at y model Rheoli Cyrchfan a lefelau'r cydweithredu sydd wedi'u cyflawni rhwng partneriaid ym Mannau Brycheiniog. Yn fwy na hynny, maent yn amlwg yn cynhyrchu canlyniadau cadarnhaol. Fodd bynnag, nid yw gwaith partneriaeth byth yn hawdd nac yn syml, ac mae angen dyfalbarhad, hyder, eglurder cyffredinol o ran pwrpas, parodrwydd i gyfaddawdu, a chyfathrebu effeithiol er mwyn llwyddo. Fel y dangoswyd yn glir ym Mannau Brycheiniog, mae partneriaethau cyrchfannau yn ennill eu tir go iawn lle nad oes gan yr un rhanddeiliad fynediad unigryw i'r holl linellau cymorth, adnoddau a gwybodaeth angenrheidiol. Mae'r diffyg cyllid craidd sylweddol ym Mannau Brycheiniog (mewn termau absoliwt ac o gymharu'n hanesyddol â chyrchfannau eraill) wedi'i wrthbwysu'n llwyr trwy fabwysiadu'r dull partneriaeth, ac ymddiried yn y dull hwnnw.

Yn dilyn argymhellion yn y strategaeth flaenorol, cafodd y strwythur llywodraethu a chyflenwi presennol ei ddatblygu a'i weithredu'n llawn yn 2014, fel y gwelir yn y diagram enghreifftiol isod:



Yn ôl unrhyw linydd mesur cynllunio sefydliadol, mae hwn yn strwythur cymhleth, a hynny am resymau pendant, am ei fod yn ceisio:

- ❖ Sicrhau bod yr holl randdeiliaid perthnasol yn cael eu cynnwys ac yn gallu cyfrannu ar lefel sy'n gymesur â'u diddordeb a'u dylanwad (yn enwedig y sector preifat)
- ❖ Croesawu *realpolitik*, sensitifrwydd hanesyddol a 'ffawtlinau' sefydliadol
- ❖ Mynd i'r afael â strwythur blaenorol a oedd hyd yn oed yn fwy anghymesur, lle roedd y llinellau adrodd yn aneglur
- ❖ Gwahanu rolau strategol, gweithredol, goruchwylio a gwybodaeth
- ❖ Darparu ar gyfer atebolrwydd a 'rhwystrau a gwrthbwysau'
- ❖ Cydymffurfio'n llawn â chanllawiau Croeso Cymru ar Bartneriaethau Cyrchfannau

Rhoddyd y strwythur ar waith trwy'r calendr arfaethedig canlynol o gyfarfodydd mewn unrhyw un flwyddyn:

- 1 x Gynhadledd Flynyddol (yn agored i bawb sydd â diddordeb mewn twristiaeth yn y Gyrchfan ond nad ydynt yn rhan o'r strwythur ffurfiol)
- 2 x Gyfarfod o Fforwm y Bartneriaeth Cyrchfan Gynaliadwy
- 4 x Cyfarfod o Fwrdd y Bartneriaeth Cyrchfan Gynaliadwy
- Cyfarfodydd dilyniannol o'r Grŵp Cydgysylltu Marchnata a'r Grŵp Cyflenwi ac Adrodd er mwyn ymateb i gylch cyfarfodydd y Bwrdd
- Cyfarfodydd grŵp eraill yn ôl yr angen

Mae Cadeiryddion annibynnol wedi cael eu penodi i'r Bwrdd a'r Grŵp Cydgysylltu Marchnata, nad ydynt yn rhan o unrhyw un o'r sefydliadau cyfansoddol, er mwyn darparu gwrthrychedd. Mae Cadeirydd y Bwrdd hefyd wedi cadeirio Cynhadledd a chyfarfodydd y Fforwm.

Trefnir y gynhadledd flynyddol ar y cyd gan APCBB a Twristiaeth Bannau Brycheiniog. Mae APCBB yn cynnal, yn hwyluso ac yn darparu ysgrifenyddiaeth ar gyfer cyfarfodydd eraill y Bartneriaeth.

Gellid dadlau ei bod yn ddyddiau cymharol gynnar o hyd, gan fod y strwythur dim ond ar waith ers ychydig dros ddwy flynedd. Fodd bynnag, gellid mentro gwneud rhai arsylwadau ar sail profiadau hyd yma:

- Mae perthnasoedd gweithio ar draws y strwythur wedi gwella'n sylweddol, ond mae yna lwybr clir ar gyfer datrys materion anodd pan fyddant yn codi.²
- Mae yna ddyblygu sylweddol o ran cynrychiolaeth, a, gellir dadlau, o ran swyddogaeth rhwng elfennau o'r strwythur - mae'r ddwy elfen cyflenwi (y Grŵp Cydgysylltu Marchnata a'r Grŵp Cyflenwi ac Adrodd) yn arbennig yn rhannu llawer o'r un 'nodweddion'
- Nid yw rhai o'r rhanddeiliaid a'r grwpiau gwreiddiol yn gweithredu mwyach, e.e. Partneriaethau Twristiaeth Rhanbarthol a Rhwydwaith Twristiaeth Eglwysi Cymru, tra bo rhai eraill, e.e. Theatr Brycheiniog, yn amlwg yn chwarae rhan lawer fwy yn yr economi ymwelwyr, felly efallai fod angen ailedrych ar gysylltiadau

Y Fforwm fu'r elfen leiaf llwyddiannus o ran:

- Niferoedd a/neu bresenoldeb cyson - yn enwedig gan Awdurdodau Lleol cyfagos
- Y gor-gynrychiolaeth ddilynol o APCBB yn y cyfarfodydd
- Ehangder y diddordebau mewnol ac allanol i'w cynrychioli (o gyrff cenedlaethol strategol i glystyrau 'ymarferol' lleol sy'n cael eu cynrychioli gan wirfoddolwyr)
- Amharodrwydd i ymgymryd â'r rolau o ran dal y Bwrdd i gyfrif neu ddylanwadu ar gyfeiriad strategol

O ganlyniad mae'n anodd gosod agenda gymhellol a diddorol ar gyfer cyfarfodydd y Fforwm, ac mae'n ddiddorol bod cynifer o'r rhai sy'n gwasanaethu ar y Fforwm yn hapus i fod yn 'aelodau gohebol' yn unig.

² Enghraifft dda o hyn yw ymateb pragmatig a chefnogol Partneriaeth y Gyrcfan i anawsterau ariannol APCBB yng Nghanolfan y Parc Cenedlaethol

Ar y llaw arall, mae'r Gynhadledd wedi bod yn hynod lwyddiannus, gan ddenu siaradwyr dylanwadol, gosod agenda glir ar gyfer y flwyddyn i ddod, ennyn diddordeb ystod eang o randdeiliaid mewn gwaith datblygu cynnyrch, a dathlu cyflawniadau. Ni chafodd y penderfyniad i gyflwyno ffi bresenoldeb fach yn 2017 i dalu am luniaeth unrhyw effaith andwyol ar y niferoedd sy'n bresennol mewn cyfarfodydd, a gellid dadlau bod hynny wedi arwain at fwy o werth yn cael ei roi ar y digwyddiad.

Er gwaethaf y cymhlethdod, mae'n galonogol bod mwyafrif y busnesau yn y gyrchfan yn teimlo eu bod yn rhan o'r system, ac yn deall sut y mae'n gweithio ar eu rhan.

Y ddau bartner sy'n chwarae'r rhan fwyaf yn y Bartneriaeth Cyrchfan Gynaliadwy yw TBB ac APCBB. Wrth i'r cyntaf o'r rhain aeddfedu a chynyddu ei gapasiti, mae'n teimlo'n barod i ymgymryd â gweithgarwch arwain ychwanegol ar ran y gyrchfan, yn enwedig o ran y wefan, cysylltiadau cyhoeddus a gweithgareddau datblygu busnes. Mae hyn, yn anochel efallai, wedi arwain at rai tensiynau mewn meysydd lle mae APCBB wedi chwarae rôl arweiniol, yn draddodiadol, ac mae'r gwaith hwn yn cynnig cyfle i egluro cyfrifoldebau.

Mae TBB bellach yn cyflawni rôl gyfathrebu a 'bugeiliol' bwysig gyda'r grwpiau clwstwr cymunedol (ynghyd â rhanddeiliaid twristiaeth unigol yn yr ardal), y mae pob un ohonynt yn cael eu gwahodd i'w chyfarfodydd.

Mae'n anghyson braidd fod Cadeirydd Bwrdd y Bartneriaeth Cyrchfan Gynaliadwy yn cael tâl cydnabyddiaeth, ond nad yw Cadeirydd y Grŵp Cydgysylltu Marchnata yn cael tâl o'r fath. (Gellid dadlau y bu gan yr olaf o'r rhain dasg anoddach dros y ddwy flynedd ddiwethaf ...)

Ar hyn o bryd mae aelodaeth Fforwm a Bwrdd Partneriaeth Cyrchfan Gynaliadwy Bannau Brycheiniog o reidrwydd yn seiliedig ar gynrychiolaeth sefydliadol yn hytrach na sgiliau neu brofiad unigol.

Partneriaethau Ehangach

Oherwydd ei chwmpas trawsffiniol, estynnir gwahoddiad i Bartneriaeth Cyrchfan Gynaliadwy Bannau Brycheiniog fynychu tri o'r pedwar Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol (De-ddwyrain, De-orllewin a Chanolbarth Cymru), sef yr ail haen, ar hyn o bryd, o'r trefniadau ar gyfer ymgysylltu â'r diwydiant a roddwyd ar waith gan Croeso Cymru yn 2014. Fodd bynnag, mae hyn yn rhoi cryn bwysau ar amser swyddogion a gwirfoddolwyr os ydynt i fynd i'r holl gyfarfodydd. Byddai cynrychiolwyr Bannau Brycheiniog a Croeso Cymru yn cytuno nad yw'r Fforymau Rhanbarthol ar hyn o bryd yn cyflawni eu disgwyliadau o ran cyfathrebu a throsolwg strategol.

Trwy gydgyrchiolaeth mae Partneriaeth Cyrchfan Gynaliadwy Bannau Brycheiniog yn cael ei chynnwys yn dda mewn gweithgareddau twristiaeth eraill, yn ogystal â gweithgareddau adfywio economaidd ehangach yn y canolbarth, ac mae APCBB yn rhan o Bartneriaeth Cyrchfan Sir Gaerfyrddin a Bwrdd Rheoli Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gynrychiolaeth ffurfiol ar grwpiau Rheolwyr Cyrchfannau dan arweiniad awdurdodau lleol yn y de-ddwyrain, ac mae hyn, o bosibl, yn adlewyrchu'r diffyg cyfeiriad at y Bannau mewn nifer o Gynlluniau Cyrchfan yn y de-ddwyrain. Nid oes unrhyw ymgysylltu ffurfiol â Dinas-Ranbarth Abertawe na Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd ar lefel grŵp strategol na gweithgor. Mae'r ddau bellach yn cael 'Bargeinion Dinesig' a fydd, o bosibl, yn datgloi adnoddau ychwanegol sylweddol ar gyfer yr economi ymwelwyr.

3. Y Sefyllfa Bresennol

3.1. Ffactorau Galw a Safle Cystadleuol

Dengys arolygon dros y blynyddoedd diwethaf fod y rheiny sy'n ymweld â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ymwybodol iawn ohono fel endid, gyda 97% o'r 1500 a mwy a holwyd yn 2016 yn dweud eu bod yn ymwybodol o'r Parc Cenedlaethol cyn cyrraedd, a 57% yn dweud bod eu hawydd i "ymweld â'r Parc Cenedlaethol yn benodol" wedi bod yn ffactor dylanwadol allweddol wrth benderfynu ar eu taith.

Er bod twf iach i'w weld yn gyffredinol o flwyddyn i flwyddyn, mae mwyafrif helaeth y 4.1 miliwn o bobl sy'n ymweld â'r ardal bob blwyddyn yn ymweld am y dydd, er bod nifer yr ymwelwyr sy'n aros wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Math o Ymwelydd	2014 - Nifer	2015 - Nifer	% y Newid
Dros Nos	0.296 miliwn	0.331 miliwn	+ 11.5%
Dydd	3.718 miliwn	3.815 miliwn	+ 2.6%
Effaith Economaidd (£m)	221.56	238.93	+ 7.8%
Cyfanswm Cyflogaeth	3546	3823	+7.8%

Mae hyn yn adlewyrchu pa mor hawdd yw cyrraedd yr ardal o ardaloedd trefol cyfagos yng Nghymru a Lloegr, o gymharu â Pharciau Cenedlaethol eraill yng Nghymru, (e.e. Sir Benfro, sy'n cofnodi bod dros 50% o'i 4.3 miliwn o ymwelwyr blynyddol yn aros dros nos). Rhaid rhoi blaenoriaeth i ddod o hyd i ffyrdd o fanteisio i'r eithaf ar refeniw gwariant eilaidd tra bo'r ymwelwyr dydd hynny yn yr ardal, yn ogystal ag edrych am ffyrdd o'u darbwylo i aros yn y Parc dros nos.

Mae'r ardal wedi elwa ar sylw cadarnhaol yn y wasg a'r cyfryngau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a hynny o ganlyniad i ymdrech partneriaeth ar y cyd i gyflwyno'r gyrchfan yn y cyfryngau prif ffrwd, ynghyd ag agweddau tebyg i gyflawni statws Awyr Dywyll. Mae'r statws hwnnw, ar y cyd â'r gallu i ddenu poblogaeth fawr o ymwelwyr sy'n byw o fewn pellter gyrru, yn golygu bod y gyrchfan mewn sefyllfa gref i ddenu ymwelwyr dros nos yn ystod y 12-24 mis nesaf, gan ddefnyddio'i statws Awyr Dywyll fel bachyn.

Wrth ystyried y strategaeth bresennol a'r ffactorau dylanwadol allweddol a nodir ynddi, mae llawer o'r rhain wedi dod yn fwy amlwg dros y blynyddoedd diwethaf (o ran y modd y gallant effeithio ar apêl yr ardal).

Mae'r tabl canlynol yn amlygu agweddau amlwg ar yr uchod.

<p>Y cynnydd yn nifer y gwyliau profiad a nodweddion unigryw lleol</p>	<p>Gan gynnwys cynigion unigryw ond gyda'r pwyslais ar hanfodion profiad lleol, e.e. bwyd). Nid yw'r duedd hon yn dangos unrhyw arwydd o arafu. Datblygu 'pecynnu meddal' ("bwndelu") trwy wybodaeth a chyfathrebu cyson sy'n cysylltu opsiynau cludiant a llety ag atyniadau, gweithgareddau, digwyddiadau, y sector bwyd a diod a'r sector manwerthu, er mwyn sicrhau profiad ehangach a dyfnach o'r Bannau i ymwelwyr (a manteisio'n llawn ar weithgarwch datblygu brand cenedlaethol a rhanbarthol)</p>
<p>Twf parhaus ym marchnad gwyliau byr y DU</p>	<p>Dengys ymchwil ar fwriadau gwyliau (BDRC, Ionawr 2017) fod Prydeinwyr yn fwy tebygol o fynd ar wyliau byr o un i dair noson (88%) na gwyliau hirach o bedair noson a mwy (77%), ac mae'r duedd hynny wedi'i sbarduno ymhellach gan ansicrwydd ynghylch y gyfradd gyfnewid. Mae'n arwydd clir y gall, ac y dylai'r ardal seilio cyfathrebu a gweithgareddau ar wyliau byr. Y 12-24 mis nesaf fydd un o'r cyfleoedd gorau (yn y blynyddoedd diwethaf) i'r ardal ddarbwylllo rhai o'i ymwelwyr dydd i aros dros nos.</p>

<p>Goruchafiaeth y cyfrwng digidol yn y broses o chwilio am wyliau a'u harchebu</p>	<p>Er bod yr angen i 'ddianc ac ymlacio' ar wyliau cefn gwlad yn ysgogiad allweddol, yn ôl pob golwg, i ddau o bob pump o Brydeinwyr sy'n mynd ar wyliau (BDRC, 2017), mae'r broses o gynllunio gwyliau yn seiliedig yn bennaf ar y cyfrwng digidol.</p> <p>Mae pum cam y broses o gynllunio gwyliau, a gydnabyddir gan Google, yr un mor berthnasol i bob rhan o'r farchnad, ac yn seiliedig ar batrymau chwilio am wyliau ar-lein: Breuddwydio, Cynllunio, Archebu, Profi ac, yn olaf, Rhannu. Mae angen i'r ardal sicrhau bod adnoddau digidol a phrosesau cynllunio gweithgareddau yn cynnig ffordd syml o reoli 'taith yr ymwelydd' cyn, yn ystod, ac ar ôl ymweliad.</p> <p>DS: Roedd tua 26% o'r 1500 o ymwelwyr a arolygwyd yn 2016 wedi defnyddio'r Rhyngrwyd a'r cyfryngau cymdeithasol i ymchwilio i'w taith. Gellir priodoli'r ffigur isel hwn, yn rhannol, i'r ffaith bod llawer o'r ymwelwyr hynny yn dychwelyd i'r ardal, ac yn gyfarwydd â hi.</p>
<p>Y pwysoliad a roddir (gan ddarpar ymwelwyr) i adolygiadau ac argymhellion cadarnhaol gan gymheiriaid wrth ddewis cyrchfan</p>	<p>At hynny, mae ymchwil ddiweddar (BDRC, 2017) yn cadarnhau bod dros dau o bob pump o Brydeinwyr yn defnyddio gwefannau adolygu ar gyfer eu gwyliau (gan godi i ddwy ran o dair o bobl rhwng 18 a 34 oed a thri o bob pump o deuluoedd).</p> <p>Fel y cofnodwyd gan Nielsen, <i>"92% of consumers trust online content from friends & family above all other forms of brand messaging"</i>. Hyd yn oed yn fwy arwyddocaol, o bosibl, yw'r ffaith bod yr un ymchwil yn dangos bod adolygiadau ar-lein yn chwarae rhan mor fawr yn y broses o wneud penderfyniad nes bod (defnyddwyr) <i>"... trust strangers second most - far more than they trust content from brands."</i></p> <p>Yn gyffredinol, mae dros 50% yn datgan bod</p>

	<p>argymhelliad wedi dylanwadu ar eu penderfyniad wrth ddewis eu gwyliau diwethaf. Dylai Bannau Brycheiniog, gyda'u lefelau uchel o foddhad ymwelwyr a phatrymau ymweld ailadroddus (e.e. roedd 75% o'r rheiny a holwyd yn arolwg 2016 o blith dros 1000 o bobl wedi ymweld â'r ardal o'r blaen, a dywedodd 92% ohonynt y byddent yn dychwelyd eto yn y dyfodol) fod mewn sefyllfa dda i fanteisio ar hyn.</p>
<p>Llety 'Homestay', e.e. disgwylir i Airbnb dyfu yn 2017</p>	<p>Mae gwefan Airbnb, a oedd yn ddatblygiad cymharol newydd ar adeg cyhoeddi'r strategaeth ddiwethaf (er iddi gael ei chreu yn 2008, roedd yn dal i fod yn arbenigol), wedi dod yn rym mawr yn y gymuned Asiantaethau Teithio Ar-lein a chyfryngau cymdeithasol. Erbyn hyn, mae modd archebu profiadau, yn ogystal â llety, trwy'r wefan.</p> <p>Er mis Chwefror 2017, mae'n cynnig tua 90 o opsiynau o ran llety yn ardal ehangach Aberhonddu, 80 yn ardal y Fenni, 60 yng Nghrucywel, 50 yn ardal Llandeilo a thros 100 yn ardal y Gelli Gandryll. Er bod yna orgyffwrdd â'r stoc gwelyau hysbys, mae llawer o'r lletyau hyn yn rhai nad ydynt wedi'u cofnodi o ran dylanwad a chwmpas gweithgareddau marchnata'r Parc (gan gynnwys cyfleoedd datblygu sgiliau a chyflwyno brand).</p> <p>Mae hon yn sefyllfa gyffredin ym mhob cyrchfan gydnabyddedig yn y DU bron (yn ogystal â thu hwnt), ac mae'n bwysig nodi y bydd y cynnydd mewn lletyau 'homestay', yn ddi-os, yn cael effaith ar gapasiti a phatrymau'r ardal o ran gwyliau dros nos, er y bydd yn anodd iawn, os nad yn amhosibl, monitro'r effaith honno yn effeithiol.</p>

3.2. Ffactorau cyflenwi

Llety

Yn ôl ffigurau swyddogol, mae stoc llety Bannau Brycheiniog wedi colli tua 0.6% o'i chapasiti dros y pum mlynedd diwethaf, gydag ychydig yn llai na 10 mil o welyau wedi'u cofnodi yn 2016³. Mae'r dadansoddiad ynghlwm fel Atodiad. Fodd bynnag, dylid nodi bod y sylwadau ynghylch Airbnb yn yr adran flaenorol, sy'n awgrymu bod nifer sylweddol yn gweithredu yn 'answyddogol'. Byddai canlyniadau'r arolwg o'r diwydiant hefyd yn awgrymu trosiant o weithredwyr o ystyried y niferoedd sydd wedi bod yn gweithredu ers pum mlynedd neu lai.

Atyniadau

Mae rhestr o atyniadau yn ardal y Bannau wedi'i chynnwys fel Atodiad. Lle bo niferoedd ymwelwyr wedi'u cyhoeddi, maent wedi cael eu cynnwys, ond gellir ystyried bod unrhyw atyniad sy'n denu dros 100 mil o ymwelwyr y flwyddyn yn atyniad mawr yn nhermau Bannau Brycheiniog. Er bod yna nifer o weithrediadau masnachol annibynnol, mae llawer o 'frandiau' lluosog mawr Cymru i'w gweld yn y gyrchfan a'r cylch: Amgueddfa Genedlaethol Cymru (Y Pwll Mawr yw atyniad mwyaf poblogaidd y Parc Cenedlaethol), Cadw, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Glandŵr Cymru ac, wrth gwrs, APCBB ei hun.

Gweithgareddau

Mae'r cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau ffurfiol ac anffurfiol wedi bod yn brif ysgogiad dros ymweld â Bannau Brycheiniog ers tro byd.

Mae gan Grŵp Darparwyr Gweithgareddau Awyr Agored De Cymru tua 230 o aelodau yng Nghymru a thu hwnt, ond mae'r mwyafrif helaeth ohonynt yn darparu gweithgareddau antur rheolaidd mewn gwahanol leoliadau ym Mannau Brycheiniog. Mae 60% o aelodau wedi llofnodi'r Siarter Amgylcheddol. Mae'n ddiddorol bod Grŵp Darparwyr Gweithgareddau Awyr Agored De Cymru wedi dod i fodolaeth, gyda

³Fodd bynnag, bu newid o ran y modd y mae lletyau hunanarlwyo yn cael eu categorio

chefnogaeth TBB, o ganlyniad i bryderon am gynaliadwyedd ac effaith mewn atyniadau poblogaidd allweddol.

3.3. Dadansoddiad Dimensiynol ar gyfer Cyrchfan Bannau Brycheiniog

Mae ymchwil ac ymgynghoriadau helaeth â rhanddeiliaid yn arwain at y dadansoddiad cryno canlynol o'r statws presennol:

Dimensiwn	Dadansoddiad
Gwleidyddol	<ul style="list-style-type: none"> • Mae polisi Llywodraeth Cymru yn cydnabod Twristiaeth fel un o brif sectorau economaidd Cymru • Mae gwaith sylweddol gyda chymunedau yn y Parc wedi meithrin safbwynt twristiaeth rhagweithiol ar lawr gwlad • Mae rhanddeiliaid wedi ymrwymo i'r strategaeth dwristiaeth bresennol a'i 'chyfeiriad' • Safbwynt cadarnhaol a chefnogol Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Awdurdodau Unedol sydd â throedle yn y Parc, ond ... • Cydnabyddiaeth gyfyngedig gan Awdurdodau Unedol o werth y cysylltiad â Bannau Brycheiniog i'r De a'r Gorllewin • Nid yw blaenoriaethau polisi Prifddinas-Ranbarth Caerdydd na Dinas-ranbarth Abertawe yn cydnabod arlwy Bannau Brycheiniog • Mae effeithiau Brexit yn aneglur mewn perthynas â chanfyddiadau o'r DU o ran croeso a chyflogaeth
Economaidd	<ul style="list-style-type: none"> • Perfformiad mwy cadarnhaol gan y gyrchfan yn

	<p>2015 ar ôl rhai blynyddoedd o ddiffyg cynnydd</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sector twristiaeth bywiog gyda thystiolaeth o newydd-ddyfodiaid ym Mannau Brycheiniog • Cynnydd yn y llety sydd ar gael (yn ychwanegol at y stoc hysbys bresennol) trwy wefan Airbnb - mae hyn wedi cynyddu capasiti, ond mae yna ansicrwydd ynghylch cyfanswm y sylfaen a lefelau ansawdd. Tra bo rhai darparwyr llety hysbys yn defnyddio'r wefan i estyn eu cyrhaeddiad o ran marchnata, mae lletyau eraill (a oedd yn anhysbys yn flaenorol) wedi dod i'r amlwg • Digwyddiadau eiconig sydd ag apêl genedlaethol a rhyngwladol, e.e. Gŵyl Lenyddol y Gelli, Gŵyl y Dyn Gwyrdd, Gŵyl Fwyd y Fenni • Mae Bannau Brycheiniog yn un o frandiau cyrchfan eiconig y DU, ond ... <ul style="list-style-type: none"> • Prin fu'r defnydd o frand Bannau Brycheiniog • Dibyniaeth hirdymor ar arian cyhoeddus i gefnogi'r gwaith o farchnata twristiaeth a datblygu cynnyrch • Arian cyhoeddus ar lefel y gyrchfan yn parhau i leihau • Llai o fynediad at Gronfeydd yr UE, ynghyd â'r posibilrwydd na fyddant ar gael o gwbl ar ôl 2020 - effaith sy'n cael ei dwysáu gan lwyddiannau sylweddol blaenorol. • Mwy o ddibyniaeth ar gronfeydd canolog Llywodraeth Cymru i gefnogi darpariaeth o ddydd i ddydd • Y sectorau preifat a gwirfoddol yn llusgo'u traed o ran llenwi bylchau mewn cyllid • Effeithiau Brexit yn aneglur, er bod cwmp yng ngwerth y bunt wedi cael effaith gadarnhaol
--	--

	fyrdymor ar ymweliadau â Chymru o dramor a'r DU
Cymdeithasol	<ul style="list-style-type: none"> • Poblogaeth sy'n heneiddio ond sy'n dal i fod yn anturus yn y DU a Gogledd Ewrop • Mae gan drigolion lleol farn gadarnhaol am dwristiaeth a'i manteision • Mae twristiaeth yn amlwg yn cefnogi lefel uwch o fanwerthu, bwyta allan a darpariaeth ddiwylliannol ar gyfer y boblogaeth leol • Lefelau uchel o arbenigedd trwy wirfoddoli, e.e. CRiC • Mae twristiaeth yn ddarparwr sylweddol o gyflogaeth leol, ond ... • Mae yna rai pryderon o hyd am werth/rhagolygon swyddi ym maes twristiaeth, a hynny oherwydd canfyddiadau ynghylch natur dymhorol, strwythur cyflogaeth a chyfraddau chyflogau • Anawsterau posibl wrth recriwtio i swyddi allweddol ar ôl Brexit • Mae ymddeoliadau a newidiadau mewn ffyrdd o fyw yn arwain at golli gallu, arbenigedd ac 'ymdeimlad o le', a hynny mewn ffordd anweledig i raddau helaeth
Technolegol	<ul style="list-style-type: none"> • Defnydd cynyddol o gyfryngau digidol i ymchwilio, cynllunio, prynu ac adolygu ymweliadau, yn ogystal â chyrchu gwybodaeth amser real am gyrchfannau • Mae gwefan integredig wedi cael ei sefydlu, sy'n cyfuno cynnwys cyfoethog gan y diwydiant ac APCBB • Technolegau sy'n gwella'n gyflym ar gyfer mathau o gludiant personol sy'n creu llai o lygredd, ond ... • Mae'r wefan a'r presenoldeb ar-lein yn tangyflawni, gan effeithio ar hyder y diwydiant

	<ul style="list-style-type: none"> • Mae mynediad i dechnoleg symudol/Wi-Fi/band eang bellach yn cael ei ystyried yn wasanaeth sylfaenol, ac nid yn ddewisol • Mae cyfran fawr o'r ymwelwyr yn dal i ffafrio cael gwybodaeth ar ffurf copi caled, ac yn gwerthfawrogi hynny • Mae llwyfannau tebyg i Airbnb yn amharu ar ddulliau traddodiadol o ddatblygu cynnyrch, dosbarthu a chydweithio • Nifer cyfyngedig o leoliadau yn y gyrchfan lle gellir gwefru cerbydau trydan
Amgylcheddol	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r statws Parc Cenedlaethol a dynodiadau perthnasol eraill (Geoparc, Gwarchodfa Awyr Dywyll, ac ati.) yn golygu bod ymwelwyr yn 'disgwyl' safonau cynaliadwyedd amgylcheddol uchel gan unrhyw weithgarwch economaidd a gefnogir yn gyhoeddus • Mae'r statws Parc Cenedlaethol yn fantais enfawr o ran denu ymwelwyr • Efallai y bydd y cynigion ar gyfer Metro i'r Ddinas-Ranbarth yn cynnig cyfleoedd ar gyfer gwell cludiant cynaliadwy o'r De a'r Dwyrain • Mae twristiaeth yn darparu cyfleoedd cyflogaeth yn lleol, gan gyfyngu ar nifer y bobl sy'n cymudo o'r ardal, ond ... • Prin yw'r busnesau sydd wedi ymgymryd â'r achrediad gwyrdd, a hynny oherwydd y canfyddiad o gost yn erbyn buddion • Ar hyn o bryd, mae cludiant cyhoeddus yn gyfyngedig, ac yn anelu at gyflawni nodau cymdeithasol yn hytrach nag economaidd - mae'r ymdrechion i ategu'r ddarpariaeth wedi bod yn

	ddrud ac yn gyfyngedig o ran amser
Sefydliadol/Cyfreithiol	<ul style="list-style-type: none"> • Mae statws cyrchfan Bannau Brycheiniog wedi'i gydnabod a'i gymeradwyo'n swyddogol ymhlith 'mawrion' o amgylch bwrdd y Bartneriaeth Cyrchfan • O ran TBB, mae gan y gyrchfan gysylltiad cynyddol proffesiynol â'r diwydiant, cysylltiad a edmygir yn fawr o ran ei raddfa, ei gwmpas, ei enw da, a'i uchelgais gan lawer o ardaloedd eraill yng Nghymru • Mae APCBB wedi cyflwyno 'cynlluniau lle cyfan' ar gyfer cymunedau Bannau Brycheiniog, ac mae twristiaeth yn rhan amlwg o lawer ohonynt • Yn dilyn 'Adolygiad Marsden', mae dibenion a rolau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru wedi cael eu cymeradwyo a'u cryfhau, ond ... • Yn yr un modd ag mewn Awdurdodau Lleol eraill, mae gan holl adrannau'r Awdurdod Parc Cenedlaethol rôl bwysig i'w chwarae o ran helpu'r gyrchfan i 'weithio' er budd ymwelwyr a thrigolion - nid dim ond y rheiny sydd â thwristiaeth yn y teitl • Mae'r ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth a'r reddf, sydd i'w chanmol, ar gyfer cynhwysiant wedi arwain at strwythur llywodraethu a chyfathrebu cymhleth iawn • Ni fu'n glir pwy sy'n gyfrifol am y gwaith beunyddiol o reoli cyrchfan Bannau Brycheiniog; fodd bynnag, mae yna broses ailstrwythuro rheolwyr ar waith yn APCBB a ddylai roi eglurder ynghylch cyfrifoldebau arwain ym maes twristiaeth • Mae APCBB wedi cynnal adolygiad o'r partneriaethau y mae'n ymwneud yn ffurfiol â nhw. Mae'n bosibl y bydd hyn yn cael effaith ar 'reolau ymgysylltu' yn y dyfodol.

4. Yr hyn yr ydym am ei gyflawni

4.1. Uchelgais

Yr egwyddorion sy'n sail i'r strategaeth newydd

Yr egwyddorion arweiniol a sefydlwyd yn y strategaeth flaenorol, ac yr ydym yn profi ein camau gweithredu arfaethedig yn unol â nhw, h.y.

- ✓ Partneriaeth Effeithiol
- ✓ Twf mewn Gwerth Gydol y Flwyddyn
- ✓ Cynhwysiant Cymdeithasol
- ✓ Cynaliadwyedd
- ✓ Cwmpas Daearyddol
- ✓ Brand Integredig
- ✓ Ymagwedd Gytbwys at y Farchnad
- ✓ Ymgysylltu â'r Gymuned ...

... rydym yn argymhell ychwanegu un egwyddor arall, sydd ymhlyg o ran Brand a Chynaliadwyedd, ond sy'n bwysig yn ei rhinwedd ei hun:

- ✓ Dilysrwydd ac 'Ymdeimlad o le'

Yn seiliedig ar gyflawniadau hanesyddol a dyheadau a fynegwyd trwy'r broses ymgynghori, rydym yn cynnig y Datganiad canlynol o Weledigaeth o ran y cynnydd y bydd y gorchfan wedi'i wneud erbyn 2022.

4.2. Datganiad o Weledigaeth - 'Yn 2022 ...

... Ymhlith tirweddau gwarchoddedig Prydain mae Bannau Brycheiniog yn parhau i gryfhau ei statws fel cyrchfan gynaliadwy flaenllaw trwy'r ffordd y mae'n datblygu ac yn marchnata ei darpariaeth i dwristiaid. Mae'n dda gweld y sectorau preifat a gwirfoddol yn chwarae rhan fwyfwy amlwg a gweithgar yn y bartneriaeth sy'n

rheoli'r gyrchfan, yn ogystal â'r asedau sy'n rhan ohoni. Rhywbeth hyd yn oed yn fwy calonogol yw'r enw da y mae'r gyrchfan bellach wedi'i ennill iddi'i hun am ei chroeso unigryw i ymwelwyr ac am wella lles preswylwyr, gan fod yn 'gymydog da' i gyrchfannau cyfagos a'r ardaloedd awdurdod lleol niferus y mae'n rhannu ei hôl-troed â nhw. Bellach, mae yna werthfawrogiad llawn o'r manteision a'r gwerth ychwanegol y mae'r profiad o Fannau Brycheiniog yn eu cynnig.

Mae yna wir ddealltwriaeth o'r hyn sy'n gwneud ac yn cadw ein tirlun yn arbennig, wedi'i rhannu gan y rheiny sy'n ei reoli a'r rheiny sy'n hyrwyddo mynediad iddo. Mae gweithgareddau awyr agored ac antur yn parhau i fod yn elfen allweddol o'r ddarpariaeth i ymwelwyr, ond maent bellach yn denu pobl o ystod ehangach o oedrannau, dyheadau, cefndiroedd a galluoedd. Bellach caiff y gweithgareddau hyn eu hategu gan stori fwy cyfoethog: dathliad hyderus o etifeddiaeth ddiwylliannol fyw yr ardal - y celfyddydau a threftadaeth, pobl a phersonoliaethau, cymunedau ac iaith, trefi marchnad a phentrefi, bwyd a chynnyrch - etifeddiaeth sy'n dod yn fyw trwy rwydwaith hunangynhaliol o lysgenhadon twristiaeth.

Mae mwy o'n hymwelwyr yn aros dros nos, yn ymweld ganol wythnos ac yn ystod y misoedd tawelach, ac yn darganfod rhannau eraill o'r gyrchfan ar wahân i'r atyniadau poblogaidd. Maent yn cael eu denu gan y statws Awyr Dywyll, Geoparc a Safle Treftadaeth y Byd, amrywiaeth gystadleuol o brofiadau ar gyfer 'y pedwar tymor', sydd wedi'u hyrwyddo'n dda, ynghyd â chalendr dibynadwy o wyliau a digwyddiadau, y mae'r cyfan oll yn ychwanegu at yr ymdeimlad unigryw o le.

Yn unol â llifau ymwelwyr a manau cychwyn, mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi'i adnabod yn rhan allweddol o ddarpariaeth Dinas-Ranbarthau Caerdydd ac Abertawe, a hefyd yn ffocws ar gyfer economi'r Canolbarth, gan fanteisio ar well cludiant a chysylltedd ffonau symudol a band eang er budd y diwydiant ac ymwelwyr, fel ei gilydd.

I grynhoi, hoffem grisialu'r weledigaeth hon mewn cyfres o bedwar dyhead clir ar gyfer Twristiaeth ym Mannau Brycheiniog:

- ✓ Enghraifft falch o gyrchfan gynaliadwy sy'n cael ei chefnogi gan ei chymunedau
- ✓ 'Cymydog da' sy'n ychwanegu gwerth sylweddol at y ddarpariaeth a'r economi ranbarthol
- ✓ Sectorau preifat a gwirfoddol bywiog sy'n cymryd yr awenau o ran croesawu ymwelwyr a'r ddarpariaeth i dwristiaid
- ✓ Mwy o resymau dros ymweld yn amlach â'r Parc Cenedlaethol trwy gydol y flwyddyn

Nodau a Blaenoriaethau Strategol

Yn ogystal â chyflawni targed cyffredinol Croeso Cymru ar gyfer twf, y bwriad strategol cyffredinol yw darparu twristiaeth o **werth uwch** - economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol - i Fannau Brycheiniog; gwell cysylltedd, neu, mewn iaith syml, bod yn fwy 'cydgysylltiedig', yw'r allwedd i gyflawni'r gwerth hwnnw - yr 'edau euraid' syn rhedeg trwy'r cynllun hwn ...

O ran y ffordd yr ydym yn cyflwyno'r Gyrchfan:

- ✓ Ymwybyddiaeth eang o frand a gwerthoedd brand Bannau Brycheiniog, a'u mabwysiadu a'u hybu'n eang ymhlith sefydliadau a chynhyrchwyr ar gyfer ymwelwyr
- ✓ Dull 'di-dor' o reoli 'taith yr ymwelydd' cyn, yn ystod, ac ar ôl ymweliad, yn enwedig trwy sianeli ar-lein
- ✓ Datblygu 'pecynnu meddal' trwy wybodaeth a chyfathrebu cyson sy'n cysylltu opsiynau cludiant a llety ag atyniadau, gweithgareddau, digwyddiadau, y sector bwyd a diod a'r sector manwerthu, er mwyn sicrhau profiad ehangach a dyfnach o'r Bannau i ymwelwyr (a manteisio'n llawn ar weithgarwch datblygu brand cenedlaethol a rhanbarthol)

O ran y ffordd yr ydym yn cydweithio:

- ✓ Dull integredig o reoli'r gyrchfan yn gyffredinol, gydag eglurder o ran cyfrifoldebau arwain, atebolrwydd a llinellau adrodd

- ✓ Cydweithio cryfach rhwng y Bannau a'u 'cymdogion' yn seiliedig i ddechrau ar brosiectau amser cyfyngedig sydd o fantais glir i bawb
- ✓ Ffocws clir ar economi ymwelwyr traws-adrannol yng ngweithgareddau cyflenwi, swyddogaethau, a pholisïau statudol ac anstatudol cyrff llywodraethol perthnasol, yn enwedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

O ran y ffordd yr ydym yn gofalu am ein hymwelwyr

- ✓ Cyfatebiaeth rhwng amcanion y gyrchfan a'r llafur a'r sgiliau penodol sy'n ofynnol i'w bodloni
- ✓ Partneriaeth gryfach, ond symlach, rhwng rhanddeiliaid twristiaeth i gyflawni brand ac addewid ansawdd y gyrchfan, boed hynny yn y sector cyhoeddus, preifat neu'r trydydd sector, ac ar lefel genedlaethol, ranbarthol neu leol
- ✓ Cyd-ddealltwriaeth drylwyr o broffil, ymddygiad, agweddau ac anghenion ymwelwyr, er mwyn llywio buddsoddiad yn y profiadau a gynigiwn

Amcanion Strategol a Meysydd ar gyfer Gweithredu

Gallwn droi'r nodau hyn yn amcanion cyfatebol ar gyfer pum mlynedd y strategaeth, gyda'r mesurau llwyddiant canlynol:

Amcanion	Mesurau Llwyddiant
Cyflwyno Bannau Brycheiniog	Datblygu'r Farchnad a Meithrin Enw Da
Cynyddu nifer y busnesau a sefydliadau ar gyfer ymwelwyr sy'n mabwysiadu brand Bannau Brycheiniog wrth eu gwaith	<ul style="list-style-type: none"> • Ansawdd a maint y cynnwys 'brand' a gynhyrchwyd • Cynyddu ymwybyddiaeth o'r diwydiant trwy ganllawiau/astudiaethau achos/gwobrau/protocolau • Nifer y Cynhyrchwyr sy'n ymgymryd â mentrau cyd-frandio • Nifer y 'cytundebau' cyd-frandio â chyrchfannau cyfagos
Gwella'r broses o reoli 'taith yr	<ul style="list-style-type: none"> • Gwelliannau o ran rheoli cronfeydd data

ymwelydd'	<p>(ar lefel busnesau a chyrchfannau)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sefydlu protocolau o ran y Cyfryngau Cymdeithasol • Perfformiad cymharol y wefan • Gwell enw da trwy adborth, cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr, a systemau adolygu • Cynnydd o ran gweithredu'r Cynllun Rheoli Ymwelwyr
Sicrhau gwerth ychwanegol gan bob ymwelydd trwy gynnig 'pecynnu meddal' o ran profiadau ehangach a dyfnach	<ul style="list-style-type: none"> • Nifer y cymhellion/mentrau i annog ymwelwyr dydd i aros dros nos, ynghyd â nifer yr ymwelwyr sy'n manteisio arnynt • Gwelliannau o ran y ddarpariaeth i deuluoedd/gyda'r nos • Datblygu rhwydwaith/rhwydweithiau gwybodaeth rhagweithiol • Nifer o atebion arloesol o ran cludiant • Sefydlu 'tymhorau' a digwyddiadau ar gyfer yr hydref/y gaeaf • Nifer yr ymwelwyr sy'n cyfeirio at werth ychwanegol agweddau diwylliannol o ran eu hymweliad â Bannau Brycheiniog.
Cydweithio	Partneriaethau
Gwella effeithiolrwydd prosesau Rheoli Cyrchfan	<ul style="list-style-type: none"> • Eglurder ymhlith rhanddeiliaid ynghylch rôl rheolwr cyrchfan • Strwythur Cynllun Rheoli Cyrchfan Diwygiedig, gyda rolau ac atebolrwydd cliriach • Dad-ddyblygu a dyrannu rolau cyflenwi penodol yn fwy eglur e.e. hyfforddi, marchnata

<p>Gwella'r berthynas weithio ag ardaloedd awdurdodau lleol sy'n rhanddeiliaid</p>	<ul style="list-style-type: none"> • O leiaf un prosiect ymarferol bob blwyddyn mewn partneriaeth â chyrchfannau cyfagos/sy'n gorgyffwrdd (datblygu cynnyrch neu farchnata) • Strwythur ymgysylltu diwygiedig ac a werthfawrogir ag Awdurdodau Lleol/Dinas-Ranbarthau cyfagos
<p>Gwella ffocws cyrff statudol ac anstatudol sy'n rhanddeiliaid ar economi ymwelwyr Bannau Brycheiniog</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Nodi sefydliadau allweddol a chynllun ymgysylltu • Dosbarthu gwybodaeth am niferoedd, gwerth ac effeithiau TBB i randdeiliaid ehangach • Cyfraniad adnabyddadwy Twristiaeth at waith cynllunio gwasanaethau a pholisi ehangach • Ffocws ar Dwristiaeth ar gyfer Cynlluniau Lleoedd • Mecanweithiau Cymorth Busnes sy'n cydnabod twristiaeth yn llawn
<p>Gofalu am ein hymwelwyr</p>	<p>Croeso Bannau Brycheiniog</p>
<p>Darparu croeso â sgiliau uwch</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Nodi anghenion hyfforddi a datblygu • Darparwyr hyfforddiant yn cyflawni yn erbyn yr anghenion hynny • Digwyddiadau rhwydweithio a dysgu rheolaidd a chynhwysol ar gyfer y Diwydiant • Rhwydwaith hunanddibynnol o Lysgenhadon
<p>Darparu profiad o ansawdd uwch yn unol ag addewid brand Bannau Brycheiniog (a Chymru)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnal a gwella'r amgylchedd cyhoeddus a'r seilwaith • Rhagor o brotocolau/gytundebau â

	<p>rhanddeiliaid i reoli 'mannau cyfyng'</p> <ul style="list-style-type: none"> • Capasiti wedi'i uwchraddio/capasiti newydd yn unol â galw hirdymor gan gwsmeriaid
Deall ein hymwelwyr a'n prif farchnadoedd yn well, er mwyn darparu'r sail dystiolaeth ar gyfer gweithredu a gwerthuso	<ul style="list-style-type: none"> • Ymchwil i ymwelwyr • Ymchwil i randdeiliaid • Tueddiadau a gwaith ymchwil i'r dyfodol • Dadansoddi enw da

4.3. Datblygu'r Gyrchfan

Yn yr un modd â chyrchfannau eraill ledled Cymru, byddai'n hawdd i Fannau Brycheiniog gael ei chyfeiliorni gan flynyddoedd thematig Croeso Cymru, yn rhannol am fod strategaethau a ffrydiau ariannu cyhoeddus wedi'u cysoni mor agos â nhw, ond byddai hyn yn camddeall y bwriad, sef meithrin dealltwriaeth glir a chredadwy ymhlith ymwelwyr o'r hyn y gall Cymru ei gyflawni mewn gwirionedd (ac yn bwysig, sut y gall wneud i rywun deimlo), a hynny gam wrth gam. Ac, wrth gwrs, ni all bob rhan o Gymru gyflawni pob agwedd ar y ddarpariaeth bob amser. Nid yw Cymru wedi rhoi'r gorau i ddarparu 'Anturiaethau', ond mae 'Chwedlau' bellach yn ychwanegu dyfnder, cymhlethdod ac Ymdeimlad o Le sylweddol at yr anturiaethau hynny. Hefyd, mae'n glir bod digon o hyblygrwydd o fewn y themâu hyn ar gyfer y rhan fwyaf o gyrchfannau os byddant yn ymateb yn greadigol i'r her (hyd yn oed 'y Môr'). Dylai'r blaenoriaethau rhyngysylltiedig ar gyfer datblygu cyrchfan Bannau Brycheiniog, yn rhai 'caled' a 'meddal', oresgyn cyfyngderau ymgyrchoedd blynyddol a manteisio ar gryfderau presennol, gan fynd i'r afael â gwendidau canfyddedig, ac maent yn gwneud hynny:

- **Gweithgareddau Antur** sy'n darparu'n gynyddol ar gyfer ystod ehangach o alluoedd, diddordebau a dyheadau
- **Diwylliant a Threftadaeth** sy'n gysylltiedig â phrofiadau o'r dirwedd ac wedi'u hysbrydoli ganddynt, ac sy'n cynnig opsiynau gyda'r nos ac ar gyfer 'pob tywydd'
- **Bwyd a Diod** sy'n dathlu cynnyrch lleol ac yn darparu gwerth ac ansawdd da drwyddi draw a gydol y dydd

- **Siopau Arbenigol/Annibynnol** sydd ar agor ar yr adegau y mae ymwelwyr am fynd i siopa
- **Trefi Marchnad a Phentrefi Croesawgar** sydd â thir cyhoeddus o ansawdd uchel a mynediad i amwynderau
- **Llety** sy'n rhagori ar ddisgwyliadau cwsmeriaid o ran lleoliad, ansawdd ac argaeledd

Wedi'u cefnogi gan:

- Rhwydwaith gwasgaredig effeithiol o ran **gwybodaeth i ymwelwyr**
- **Staff medrus** a chroesawgar
- **Llysgenhadon** gwybodus, hunanddibynnol a chymwynasgar
- **Rhaglen o ddigwyddiadau** sy'n golygu bod yna bob amser 'rhywbeth yn digwydd'
- **Cludiant** cyhoeddus ac amgen sy'n **diwallu anghenion ymwelwyr**

4.4. Partneriaethau a chysylltedd

Yn dilyn y dadansoddiad ar dudalen 26, rydym yn argymhell y newidiadau canlynol i strwythur y Bartneriaeth Cyrchfan Gynaliadwy (yn amodol ar adolygiad APCBB ei hun o'r partneriaethau):

- Bod y **Gynhadledd Flynyddol (a gynhelir yn gynnar yn y gwanwyn)** ar gyfer yr holl randdeiliaid yn dod yn rhan ffurfiol o'r strwythur, ac yn gyfle i Fwrdd y Bartneriaeth Cyrchfan Gynaliadwy adrodd yn fras ar gyflawniadau dros y 12 mis diwethaf a cheisio cymeradwyaeth gyffredinol i gynlluniau ar gyfer y flwyddyn ganlynol, gan gynnwys swyddi Bwrdd y Bartneriaeth Cyrchfan Gynaliadwy - 'cyfarfod y rhanddeiliaid'. Nid yw hyn yn gofyn am unrhyw newidiadau i ethos, trefniadaeth na mecaneg y digwyddiad hwn.
- Bod y **Fforwm presennol yn cael ei ailgyfansoddi**, gan bennu cylch gorchwyl newydd i gwrdd unwaith bob blwyddyn (yn gynnar yn yr hydref) fel digwyddiad cynllunio gweithredu a datblygu cynnyrch ar y cyd lefel uchel ar gyfer rhanddeiliaid mewnol ac allanol allweddol - sy'n cyfateb i'n rhanddeiliaid sefydliadol - i ragweld cyfleoedd Croeso Cymru, yn ogystal â

chyfleoedd ariannu eraill. (Gall y Fforwm wedyn ddewis cwrdd eto, penodi grwpiau gorchwyl a gorffen, neu ddychwelyd i'r Grŵp Cyflawni Cyrchfan i lunio cynlluniau a phrosiectau penodol).

- Bod **aelodaeth y Fforwm yn cael ei hadolygu** i fodloni ei ddiben newydd. Gan fod TBB bellach wedi ymgymryd â chyfrifoldeb 'bugeiliol' dros y 'clystyrau', er enghraifft, gallai mewnbwn yr aelodaeth gael ei sianelu trwy TBB yn y dyfodol.
- Bod y **Grŵp Cydgysylltu Marchnata a'r Grŵp Cyflenwi ac Adrodd yn cael eu huno** yn un 'Grŵp Cyflawni Cyrchfan', gyda chylch gorchwyl newydd a chynrychiolaeth ar draws sectorau sy'n darparu adnoddau technegol ac ymarferol i weithredu penderfyniadau Bwrdd y Bartneriaeth Cyrchfan Gynaliadwy a chyflawni'r Cynllun Gweithredu blynyddol.
- **Mae Bwrdd y Bartneriaeth Cyrchfan Gynaliadwy yn cwrdd dair gwaith y flwyddyn** ac yn canolbwyntio ar gynrychioli'r 'rhanddeiliaid': cyfeiriad strategol, her, dal sefydliadau cyflenwi i gyfrif, datrys materion dwysach.
- Bod **Bwrdd y Bartneriaeth Cyrchfan Gynaliadwy yn cynnal adolygiad 360 gradd** bob dwy flynedd o effeithiolrwydd a pherfformiad y strwythur i gyd-fynd â thelerau Cadeiryddion.⁴

O ran cyfathrebu i gefnogi'r strwythur hwn, mae'n galonogol nodi bod 92% o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg yn ffafrio e-fwletinâu a 55% yn croesawu digwyddiadau rhwydweithio.

Rôl y Cadeirydd

⁴ Ar y cam hwn o'r broses o ddatblygu'r gyrchfan, credwn fod cynrychiolaeth, yn hytrach nag aelodaeth haeddiannol o'r Bwrdd a'r Fforwm yn dal i fod yn ddilys i warantu cynwysoldeb. Fodd bynnag, gallai'r adolygiadau bob dwy flynedd arfaethedig amlygu diffygion o ran sgiliau a gwybodaeth; gellid cynnig hyfforddiant lle bo hynny'n briodol, a gallai cyfetholiadau, ynghyd â phenodi cadeiryddion, fynd i'r afael ag unrhyw 'fylchau'

Credwn fod ymddiriedaeth a hyder yn cynyddu i'r graddau y dylai, cyn hir, fod yn bosibl penodi Cadeirydd o blith y rheiny sy'n gwasanaethu ar unrhyw un grŵp. Mater i'r partneriaid yw penderfynu a ydynt eisoes wedi cyrraedd y pwynt hwnnw. Gallai fod yn rhy feichus ac, yn wir, yn rhy 'gyffyrddys', gofyn i un person gadeirio'r Grŵp Cyflawni Cyrchfan a Bwrdd y Bartneriaeth Cyrchfan Gynaliadwy (gan gynnwys y Fforwm a'r Gynhadledd). Fel mater o egwyddor, gallai fod yn ddefnyddiol ystyried os yw Cadeirydd Bwrdd y Bartneriaeth Cyrchfan Gynaliadwy yn perthyn i'r sector preifat, yna dylai Cadeirydd y Grŵp Cyflawni Cyrchfan fod yn perthyn i'r sectorau cyhoeddus neu wirfoddol, ac i'r gwrthwyneb. Er mwyn denu ymgeiswyr allanol, dylid ystyried honorariwm ar gyfer y naill neu'r llall o'r swyddi, neu'r ddwy ohonynt, petai'r deiliad, fel arall, ar ei golled. Fodd bynnag, mae profiad hyd yma yn awgrymu nad yw deiliaid wedi ymgymryd â'r rolau hyn oherwydd y budd ariannol ...

APCBB

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae APCBB yn gwneud newidiadau i'w strwythur rheoli. Mae'r cyfrifoldeb arweiniol am Dwristiaeth (gan gynnwys Marchnata) ar ran yr Awdurdod wedi cael ei neilltuo i swydd y Rheolwr Datblygu Cynaliadwy, sy'n atebol i'r Cyfarwyddwr Cefn Gwlad a Rheoli Tir. Swydd y Rheolwr Ymgysylltu â'r Cyhoedd, sy'n atebol i'r Prif Weithredwr, sy'n bennaf cyfrifol am gyfathrebu, dehongli, gwybodaeth ac addysg, gan gynnwys y wefan. Er bod hyn yn egluro meysydd annelwig blaenorol, bydd yn hanfodol bod y ddwy swydd yn cydweithio'n agos er mwyn sicrhau'r cymorth a'r enillion ar fuddsoddiad mwyaf posibl i APCBB ym maes twristiaeth, a dylai'r ddwy swydd, er enghraifft, ymwneud â'r Grŵp Cyflawni Cyrchfan arfaethedig.

Rôl Rheolwr Cyrchfan

Mewn cyrchfannau eraill, mae unigolyn sy'n gweithio'n uniongyrchol i Bartneriaeth y Gyrchfan, neu i un o'i sefydliadau cyfansoddol, yn aml yn cael ei alw'n Rheolwr Cyrchfan: gan ddarparu ffocws unplyg ar gyfer cyswllt allanol a mewnol o ddydd i

ddydd ynghylch materion sy'n ymwneud â rheoli'r gyrchfan, arwain y broses o roi'r cynllun gweithredu ar waith, a chynrychioli'r gyrchfan ar grwpiau prosiect ehangach. Hyd nes y bydd adnoddau'n caniatáu i Fannau Brycheiniog ddilyn y model hwn, argymhellwn y dylai'r rôl gael ei rhannu rhwng TBB a APCBB.

Partneriaethau Ehangach

Byddem yn annog y Bartneriaeth Cyrchfan Gynaliadwy i barhau i gymryd rhan yn Fforymau Rhanbarthol Croeso Cymru, pan fydd yr adnoddau'n caniatáu, yn ogystal â rhwydweithiau allanol eraill y diwydiant. Fodd bynnag, credwn y bydd camau gweithredu targededig ar lefel wleidyddol strategol, ochr yn ochr â datblygu a darparu prosiectau a gweithgareddau trawsffiniol ymarferol ar lefel dactegol, yn fwy effeithiol o ran meithrin perthnasoedd cynhyrchiol yn yr hirdymor.

5. Sut y byddwn yn cyflawni ei nod

5.1 Cynllun Gweithredu 2017-2020

	Rhaglen ac Amcanion		Cam Gweithredu	Bl. 1, 2, 3	Arweinwyr	Partneriaid	Cost U, C, I	Dangosyddion Perfformiad Allweddol
1	Cyflwyno Bannau Brycheiniog							
1.1	Cynyddu nifer y busnesau a'r sefydliadau ar gyfer ymwelwyr sy'n mabwysiadu brand Bannau Brycheiniog wrth eu gwaith	1.1.1	Ymchwilio i rwystrau, a mynd i'r afael â nhw, a chodi ymwybyddiaeth o frand Bannau Brycheiniog er mwyn helpu i sicrhau ei fod yn cael ei fabwysiadu'n fwy eang, a hynny trwy ddulliau cyfathrebu'r diwydiant ac astudiaethau achos ar arfer da	1-3	TBB/APCBB i drafod a llunio cynllun gweithredu i'w gymeradwyo gan y Grŵp Datblygu Cyrchfan/y Bwrdd		I	% aelodau TBB sydd wrthi'n defnyddio'r brand erbyn blwyddyn 3
		1.1.2	Annog aelodau TBB, Llysgenhadon ac ymgeiswyr Gwobr Twristiaeth Bannau	2	TBB	APCBB	I	% enillwyr y wobr sy'n 'cydymffurfio â'r

		Brycheiniog i fabwysiadu'r brand					brand'
	1.1.3	Llunio a 'churadu' cynnwys 'brand' o ansawdd uchel ar gyfer y wefan, cyfryngau argraffu, cysylltiadau cyhoeddus, a sianeli cyfryngau cymdeithasol, gan sicrhau bod prosesau cydweithredol yn cyflawni darpariaeth o ansawdd uchel ar gyfer pob sianel	1-3	TBB/APCBB i drafod a llunio cynllun gweithredu i'w gymeradwyo gan y Grŵp Datblygu Cyrchfan/y Bwrdd	Y Diwydiant	I	+ Enw Da Ar-lein
	1.1.4	Meithrin perthnasoedd cyd-frandio â chynhyrchwyr cenedlaethol lleol, e.e. bwyd a diod, digwyddiadau	3	TBB/APCBB i drafod a dyrannu cyfrifoldebau	Bwrdd y Bartneriaeth Cyrchfan Gynaliadwy	I	O leiaf un 'fargen' newydd y flwyddyn
	1.1.5	Cynyddu'r defnydd o frand a chynnwys Bannau Brycheiniog mewn	3	TBB/APCBB i drafod a dyrannu cyfrifoldebau	Awdurdodau Unedol	I	50% o ymgyrchoedd perthnasol y

			cynnwys/ymgyrchoedd sy'n gorgyffwrdd					gyrchfan yn croesawu negeseuon brand a chynnwys Bannau Brycheiniog
1.2	Gwella'r broses o reoli 'taith yr ymwelydd'	1.2.1	Adolygu'r broses o reoli, diweddarau, cyfryngu a chynnal gwefan y gyrchfan, sianeli cyfryngau cymdeithasol, cyfryngau argraffu a chymunedau cymdeithasol, er mwyn diwallu anghenion y diwydiant ac ymwelwyr yn well, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • Rheoli cronfeydd data (ar lefel busnesau a chyrchfan) • Protocolau cyfryngau 	1	Gweithgor y Grŵp Datblygu Cyrchfan i drafod, llunio cynllun drafft, a dyrannu cyfrifoldebau i'w cadarnhau gan y Grŵp Datblygu Cyrchfan ac yna'r Bwrdd	Bwrdd y Bartneriaeth Cyrchfan Gynaliadwy	I, ond C petai angen mwy o waith	Sefydlu protocol newydd a dyrannu rolau

			<p>cymdeithasol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dylunio'r wefan, perfformiad a dadansoddi • Adborth, cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr, a systemau adolygu <p>DS: Bydd yn hanfodol cytuno ar gyfrifoldebau ar gyfer pob agwedd ar gyfathrebu â defnyddwyr.</p>				
				1-3			I'w Gadarnhau
	1.2.2	Gweithredu'r Cynllun Rheoli Ymwelwyr (Gan gynnwys Gwybodaeth i Ymwelwyr), gan roi sylw arbennig i'r prif lwybrau a ddefnyddir gan ymwelwyr i	1-3	APCBB	Grŵp Darparwyr Gweithgareddau Awyr Agored De Cymru TBB Tirfeddianwyr	C	Adborth a boddhad ymwelwyr

			gyrraedd y Parc Cenedlaethol, ac i deithio oddi mewn iddo					
		1.2.4	Adolygu'r gwaith cydgysylltiedig o ddarparu gwybodaeth yn y gyrchfan	2	APCBB, TBB	Grŵp Datblygu Cyrchfan	I	
1.3	Sicrhau gwerth ychwanegol gan bob ymwelydd trwy gynnig 'pecynnu meddal' o ran profiadau ehangach a dyfnach	1.3.1	Datblygu'r broses o ddatblygu mentrau marchnata cynnyrch arloesol sy'n cwmpasu elfennau tebyg i'r rheiny a restrir yn 1.3.2 isod.	1	Fforwm newydd Bannau Brycheiniog Is-grŵp y Grŵp Datblygu Cyrchfan	Y Grŵp Datblygu Cyrchfan	I	Sefydlu mecanwaith
		1.3.2	Datblygu mentrau 'pecynnu meddal', e.e. Cymhellion i annog ymwelwyr dydd i aros dros nos (Bl. 1) Y ddarpariaeth i deuluoedd/gyda'r nos (Bl. 2)	1	Is-grŵp y Grŵp Datblygu Cyrchfan	Y Grŵp Datblygu Cyrchfan	I a C*	Nifer ac ystod y mentrau, nifer y busnesau dan sylw. Gweithgarwch parhaus

			Atebion arloesol o ran cludiant* (Bl. 2-3) 'Tymhorau' a digwyddiadau ar gyfer yr hydref/y gaeaf (Bl. 1) 'Bonws' diwylliannol ymweliad â Bannau Brycheiniog (Bl. 2) Profiad 'Blwyddyn y ...' (Bl. 1-3)					Nifer yr ymwelwyr sy'n manteisio ar yr uchod, a'r canlyniadau
2	Cydweithio							
2.1	Gwella effeithiolrwydd prosesau Rheoli Cyrchfan	2.1.1	Ymchwilio i gwmpas ac ymarferoldeb rôl rheolwr cyrchfan pwrpasol	1	Bwrdd y Bartneriaeth Cyrchfan Gynaliadwy		L	Astudiaeth wedi'i chwblhau
		2.1.2	Cytuno at strwythur diwygiedig ar gyfer y Bartneriaeth Cyrchfan Gynaliadwy, a'i roi ar waith, gyda rolau, atebolrwydd a llinellau	1	Bwrdd y Bartneriaeth Cyrchfan Gynaliadwy	Fforwm y Bartneriaeth Cyrchfan Gynaliadwy	L	Strwythur newydd wedi'i roi ar waith

			cyfathrebu cliriach					
		2.1.3	Adeiladu ar fframwaith cyfarfodydd ac e-gylchlythyr presennol y gyrchfan er mwyn gwella cyfathrebu o fewn y gyrchfan	1-3	Y Grŵp Datblygu Cyrchfan	Y Bwrdd	L	Cylchlythrau wedi'u hanfon
2.2	Gwella perthnasoedd gwaith â rhanddeiliaid o ardaloedd awdurdodau lleol	2.2.1	Cytuno ar o leiaf un prosiect ymarferol bob blwyddyn mewn partneriaeth â chyrchfannau cyfagos/sy'n gorgyffwrdd, a'i roi ar waith (datblygu cynnyrch neu farchnata), e.e. 'Gwlad Rhaeadrau Amgen' gyda Chastell-nedd Port Talbot a Rhondda Cynon Taf, Safle Treftadaeth y Byd/Camlas gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen	1-3	Y Grŵp Datblygu Cyrchfan	Croeso Cymru Awdurdodau Unedol Glandŵr Cymru Sustrans	C	Prosiect wedi'i roi ar waith ac amcanion y prosiect wedi'u cyflawni Brandio ar y cyd, gyda Bannau Brycheiniog yn amlwg

			a Chyngor Sir Fynwy, yr A470/Llwybr Taith Taf gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Caerdydd					
		2.2.2	Ysgogi cyfarfod blynyddol ag awdurdodau lleol cyfagos/sy'n gorgyffwrdd (ar lefel uwch-reolwyr/cabinet) i drafod blaenoriaethau economaidd ac adfywio a rennir, gan gynnwys twristiaeth	2.3	APCBB	Awdurdodau Unedol	L	Canlyniadau cyfarfodydd wedi'u cyflawni o safbwynt Bannau Brycheiniog
2.3	Gwella ffocws cyrff statudol ac anstatudol sy'n rhanddeiliaid ar economi	2.3.1	Trwy gyflwyniadau mewnol a chyfathrebu, sicrhau dealltwriaeth o'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu ymhlith Aelodau a Swyddogion	1-3	Bwrdd y Bartneriaeth Cyrchfan Gynaliadwy	APCBB TBB	I	Lefelau boddhad o'r Cyflwyniadau Yr ymdriniaeth o Dwristiaeth yng

	ymwelwyr Bannau Brycheiniog		APCBB ac ymrwymiad iddynt (Bl.1) a chynnig cyflwyniadau i un corff-rhanddeiliad allweddol arall bob blwyddyn, e.e. Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru (Bl. 2 a 3)					Nghynlluniau Lle Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
3	Gofalu am ein hymwelwyr							
3.1	Darparu croeso â sgiliau uwch	3.1.1	Nodi bylchau mewn sgiliau ac anghenion hyfforddi a datblygu y sector ym Mannau Brycheiniog trwy ddulliau cyfathrebu targededig ac arolwg ar-lein	1	TBB APCBB	Addysg Uwch/Busnes Cymru	L	Canlyniadau'r arolwg wedi'u rhannu
		3.1.2	Os nodir hyfforddiant ffurfiol gan 3.1.1, annog darparwyr hyfforddiant i ddiwallu'r anghenion a	2	Y Grŵp Datblygu Cyrchfan	Addysg Bellach/Addysg Uwch	I	Cyfleoedd newydd wedi'u cynnig i'r diwydiant gan

			nodwyd trwy ddarparu hyfforddiant lleol wedi'i deilwra i'r sector					sefydliadau Addysg Bellach/Addysg Uwch yn yr ardal
	3.1.3	Diwallu unrhyw anghenion hyfforddi anffurfiol, yn enwedig anghenion sy'n gysylltiedig â datblygu cynnyrch newydd, trwy ddigwyddiadau rhwydweithio a dysgu yn y diwydiant	2,3	TBB APCBB			C	Niferoedd sy'n cymryd rhan, a lefelau bodddhad
	3.1.4	Cynnal a gwella rhaglen y Llysgenhadon, gyda chysylltiadau â: <ul style="list-style-type: none"> • Darpariaeth Gwybodaeth i Ymwelwyr Wasgaredig • Cymorth gwirfoddol 	1-3	APCBB	TBB		C	Nifer cyffredinol y Llysgenhadon sy'n ymgysylltu a'r rheiny â sgiliau DPP newydd

			<p>ar gyfer Digwyddiadau</p> <ul style="list-style-type: none"> • Hyrwyddwyr a chynnwys ar-lein • Geoparc ac arbenigeddau eraill • Gwybodaeth arbenigol am y Blynyddoedd Thematig 					
		3.1.5	Gan dynnu ar arfer da mewn mannau eraill, ymchwilio i fesurau i wneud y garfan a'r rhaglen Llysgenhadon yn gynyddol hunanddibynnol	2-3	APCBB	TBB Croeso Cymru	I	Rhwydwaith Gynaliadwy o Lysgenhadon
3.2	Darparu profiad o ansawdd uwch yn unol ag addewid brand	3.2.1	Nodi prosiectau datblygu cynnyrch allweddol, a'u rhoi ar waith, gan gynnwys tir y cyhoedd a seilwaith i gefnogi brand a	1-3	Awdurdodau Unedol/APCBB TBB	Croeso Cymru	U	Nodi hyrwyddwyr i arwain pob maes gweithgarwch.

	<p>Bannau Brycheiniog (a Chymru)</p>		<p>blaenoriaethau strategol Bannau Brycheiniog:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gweithgareddau Antur (Gan gynnwys gweithgareddau lefel isel a hygyrch) • Diwylliant a Threftadaeth • Bwyd a Diod • Trefi a Phentrefi Croesawgar <p>Bydd Cynllun Gweithredu'r Geoparc yn rhan annatod o'r Cynllun Gweithredu hwn, ond caiff ei reoli gan y Grŵp Rheoli'r Geoparc. Bydd gwaith y Geoparc yn cael ei gynnwys yn y cynllun hwn trwy'r Grŵp Datblygu Cyrchfan.</p>				<p>Dylai'r bartneriaeth weithio tuag at gynllun prosiect tymor canolig ar gyfer pob un, gan gynnwys sut y mae'n ymdrin â natur dymhorol, ac ymwelwyr dydd ac ymwelwyr sy'n aros dros nos.</p>
--	--------------------------------------	--	--	--	--	--	---

			<p>Hefyd, datblygu ymatebion cydlynol at y blynyddoedd thematig, gan sicrhau bod uniondeb a blaenoriaethau'r strategaeth hon yn cael eu cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Antur • Chwedlau • Môr • Darganfod • Ffordd Cymru • Blynyddoedd Thema i Ddod 					
		3.2.2	<p>Ddatblygu protocolau/cytundebau â rhanddeiliaid i reoli 'mannau cyfyng' gweithgareddau, e.e. 'Rhaedrau Amgen' neu</p>	2	APCBB	<p>Awdurdodau Unedol Perchenogion Grŵp Darparwyr Gweithgareddau Awyr Agored De</p>	C	<p>Un protocol newydd wedi'i sefydlu Gwell boddhad ymhlith ymwelwyr</p>

			Ben-y-Fan, yn unol â'r Cynllun Rheoli Ymwelwyr			Cymru		
		3.2.3	Uwchraddio/sicrhau capasiti newydd yn y sector preifat, yn unol â galw hirdymor gan gwsmeriaid a blaenoriaethau o ran cynnyrch (Rôl gwybodaeth a chymorth trwy'r Bartneriaeth Cyrchfan Gynaliadwy)	1-3	Y diwydiant	Croeso Cymru APCBB TBB Awdurdodau Unedol	U	Cyfran o fuddsoddiad Cymru gyfan yn dod i'r Bannau
3.3	Deall ein hymwelwyr, ein busnesau, a'r gyrchfan yn well, er mwyn darparu'r sail dystiolaeth ar gyfer camau gweithredu a	3.3.1	Cynnal STEAM neu fodel maint a gwerth cyfatebol ar gyfer prosesau recriwtio parhaus y Gyrchfan i Arolwg Deiliadaeth Cymru	1-3	APCBB	TBB	C	Twf yn unol â chyfartaledd Cymru, o leiaf

	gwerthuso							
		3.3.2	Annog y diwydiant i hyrwyddo'r arolwg ymwelwyr ar-lein, er mwyn casglu data ansoddol ⁵	1-3	TBB	APCBB	C	Lefelau boddhad ac argymhellion
		3.3.3	Ymchwil i randdeiliaid er mwyn asesu lefelau boddhad â pherfformiad a chyflawniad y gyrchfan	3	Y Grŵp Datblygu Cyrchfan	Fforwm APCBB TBB - arolwg busnes	C	Lefelau boddhad ymhlith aelodau'r Fforwm a'r diwydiant twristiaeth
		3.3.4	Cynnal dadansoddiad rheolaidd o enw da y gyrchfan trwy sianeli ar-lein	1-3	Y Grŵp Datblygu Cyrchfan	TBB	I	Gwell enw da
		3.3.5	Ymchwilio i'r posibilrwydd o weithio gyda sefydliadau Addysg Uwch i ddatblygu	3	Y Grŵp Datblygu Cyrchfan	Addysg Uwch Croeso Cymru Dinas-Ranbarth	C	Model wedi'i sefydlu

⁵Cynhaliwyd Arolwg Ymwelwyr wyneb yn wyneb llawn yn 2016, felly mae'n annhebygol y bydd yn cael ei gynnal eto cyn 2020

			model 'arsylwadol' ar gyfer tueddiadau twristiaeth yn y dyfodol (yn ddelfrydol mewn partneriaeth â'r rhanbarth ehangach)					
		3.3.5	Datblygu cynllun data, datblygu ac adrodd cydgysylltiedig er mwyn sicrhau adborth digonol ar gyfer penderfyniadau rheolwyr	1	Y Grŵp Datblygu Cyrchfan	TBB APCBB	U	

